# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024 am 2.00 y. p. | | THURSDAY 27 JUNE 2024 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 18 Ebrill 2024
- 21 Mai 2024 (ethol Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd)

**3 ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2024** (Tudalennau 13 - 34)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**4 ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 35 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2023/24** (Tudalennau 47 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24** (Tudalennau 67 - 90)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**7 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU YR ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 91 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**8 LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** (Tudalennau 97 - 100)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**9 ARCHWILIO ALLANOL: GOSOD AMCANION LLESIANT - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 101 - 122)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru ynghyd â'r ymateb sefydliadol.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**10** **ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN CH4** (Tudalennau 123 - 142)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**11** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2024/25** (Tudalennau 143 - 150)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Ieuan Williams<br><br>Aelodau Lleyg: Michael Wilson, William Parry, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 8)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol (ar gyfer eitem 8)<br>Rheolwr TG (MH) (ar gyfer eitem 13)<br>Rheolwr Seilwaith TG (MD) (ar gyfer eitem 13)<br>Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau (LlR) (ar gyfer eitem 4)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes MBE, Liz Wood. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo), Andrew Lewis (Uwch Archwilydd). |

---

### 1. DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad i fuddiant.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi – rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad i'r Pwyllgor mewn perthynas ag eitem 5 (Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2022/23). Ar ôl gofyn i'r Rheolwr Risg ac Yswiriant ddadansoddi ceisiadau yswiriant yn gysylltiedig â llithro a syrthio cadarnhaodd nad oedd cyswllt rhwng nifer y ceisiadau yswiriant a'r cynnydd yn nifer yr achosion o lithro a syrthio.





DRAFT

## 3. ADOLYGIAD O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys adolygiad CIPFA o weithrediad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod am ganlyniad y darn o waith a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fodloni'r gofynion yn Natganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol a Heddluoedd 2022, sy'n argymell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adroddiad a oedd yn amlygu canlyniad yr adolygiad a'r meysydd a nodwyd i'w gwella ac fe amlinellodd gynnwys y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adolygiad.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Gwerth cynhyrchu log gweithredoedd ar ffurf tabl yn dilyn pob cyfarfod gan ddefnyddio'r system dracio 4action a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor fonitro cynnydd y camau gweithredu / penderfyniadau sy'n cael eu cytuno a gweld pa rai sydd wedi'u cwblhau. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n cynhyrchu log gweithredoedd yn dilyn pob cyfarfod.
- Nodwyd bod rhywfaint o wahaniaeth rhwng y derminoleg yn y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg. Nodwyd y gallai geiriau â mwy nag un ystyr beri dryswch neu gamddealltwriaeth, megis y gair "cynghorwyr" a all gyfeirio at aelodau etholedig neu ymgynghorwyr / cwnselwyr. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y cyfieithiad wedi'i drefnu gan CIPFA ac nad oedd y ddogfen wedi cael ei chyfieithu gan wasanaeth cyfieithu'r Cyngor.
- Bod yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf at brosesau a gweithdrefnau ac nad yw'n cyfeirio mewn gwirionedd at effaith neu ddylanwad y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor y byddai wedi bod yn fuddiol pe byddai'r adolygiad wedi cynnwys mwy o adborth gan reolwyr ar berfformiad y Pwyllgor, yn enwedig gan fod uwch swyddogion a swyddogion allweddol wedi cael eu cyfweld fel rhan o'r broses.
- Byddai hefyd wedi bod yn ddefnyddiol pe byddai CIPFA wedi mynychu mwy o gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael gwell dealltwriaeth o'r modd y mae'r Pwyllgor yn gweithredu a phe byddai un o gynrychiolwyr CIPFA ac awdur yr adroddiad wedi bod yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad adolygu.
- A ddylai'r meysydd nad ydynt wedi'u nodi fel meysydd penodol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor gael eu nodi fel meysydd y mae'n rhaid eu trafod. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi derbyn chwe adroddiad a oedd heb eu nodi fel eitemau y mae'n rhaid eu trafod yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â pham eu bod wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.
- Wrth lunio'r rhaglen dylid ystyried gwahaniaethu rhwng eitemau lle mae angen penderfyniad / datrysiad a'r rhai sydd er gwybodaeth yn unig yn ogystal â nifer yr eitemau 'er gwybodaeth' ar y rhaglen. Fe ddylai'r eitemau fod yn addas ac o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- Sut i wella effeithlonrwydd ac allbwn y Pwyllgor a sut y gall fod yn fwy rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol. Awgrymwyd y dylai pwrpas adroddiadau fod yn gliriach ynghyd â'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y Pwyllgor Lywodraethu ac Archwilio o ran y penderfyniadau / camau angenrheidiol. Awgrymwyd y byddai'r sesiynau briffio yn fwy cynhyrchiol a defnyddiol pe byddai pob aelod yn cael gwahoddiad yn hytrach na dim ond y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Awgrymwyd hefyd y dylid briffio'r Pwyllgor ymlaen llaw ynglŷn â'r eitemau a fydd yn cael trafod ac y gellid gofyn i'r aelodau ystyried / gwneud rhywfaint o waith ymchwil fel eu bod yn gallu cynnig syniadau pan fydd materion yn cael eu trafod yn ffurfiol gan y Pwyllgor.
- Y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio mwy ar risg a rhoi mwy o sylw i adroddiadau sy'n peri risg uwch i'r busnes oni bai bod eu heffeithiau'n cael eu lliniaru'n effeithiol.

DRAFT

Bu i'r Pennaeth Archwilio a Risg gynghori'r Pwyllgor, mewn perthynas ag alinio'r materion sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor â'r hyn sydd wedi'i nodi yn ei gylch gorchwyl, nad yw'r chwe adroddiad a amlygwyd yn yr adolygiad wedi'u cynnwys yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor ac maent yn ymwneud â chyfrifoldebau'r Pwyllgor mewn perthynas â fframwaith sicrwydd y Cyngor h.y., maent yn adroddiadau sicrwydd yn bennaf (ac mae dau yn ymwneud â'r modd y mae'r Cyngor yn delio â chwynion, sy'n ofyniad statudol). Mae CIPFA o'r farn y dylid eu cynnwys fel eitemau penodol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor os ydynt yn debygol o gael eu trafod gan y Pwyllgor o yn flwyddyn i'r llall ac na ddylent ddod o dan y pennawd llywodraethiant a sicrwydd cyffredinol.  Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai, gyda chytundeb y Pwyllgor, yn rhannu copi o'r Cylch Gorchwyl gyda'r adroddiadau blynyddol wedi'u nodi'n glir er mwyn i'r aelodau gael cynnig sylwadau cyn dod â'r Cylch Gorchwyl i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2024 er mwyn iddynt ei adolygu.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi adolygiad CIPFA o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**
- **Cymeradwyo'r camau arfaethedig i fynd i'r afael ag argymhellion CIPFA.**

**Camau ychwanegol y cytunwyd arnynt –**

- **Bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynhyrchu log gweithredoedd i fonitro cynnydd yn erbyn camau / penderfyniadau a gytunir ym mhob cyfarfod.**
- **Bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor gyda'r newidiadau a argymhellwyd gan CIPFA er mwyn cael barn yr aelodau cyn i'r Cylch Gorchwyl gael ei adolygu'n ffurfiol gan y Pwyllgor ym mis Mehefin 2024.**
- **Cynorthwyo'r Pwyllgor i ddod yn fwy rhagweithiol, ac ystyried treialu sesiynau briffio i drafod eitemau a fydd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor fel y gall yr aelodau wneud rhywfaint o waith ymchwil cyn i eitemau gael eu trafod yn ffurfiol gan y Pwyllgor.**

## 4. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn rhoi diweddariad o'r archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad ar 31 Ionawr 2024 hyd at 31 Mawrth 2024, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith cyfredol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig.  Darparwyd copi i'r Pwyllgor, dan wahanol benawdau, o'r adroddiadau archwilio mewnol terfynol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf sef Galw Gofal (Llywodraethu partneriaeth) (Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf) (Sicrwydd Resymol); Archwilio TG Rheoli Mynediad Corfforaethol (Sicrwydd Rhesymol); Adennill y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion (Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf) (Sicrwydd Cyfyngedig)  a Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Sicrwydd Cyfyngedig). Roedd y ddau adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig yn cynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion / risgiau a godwyd yn ystod yr adolygiad archwilio mewnol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a roddodd drosolwg o'r cynnwys.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y cefndir i'r adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas ag adennill Dyledion y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion ac fe amlinellodd y ffactorau sydd wedi effeithio ar y sefyllfa o ran dyledion ac fe eglurodd bod mesurau ar waith i wella'r sefyllfa ac i gasglu incwm ac adennill dyledion yn fwy effeithiol. Darparwyd rhagor o wybodaeth gan y Rheolwr Gwasanaeth refeniw a Budd-daliadau.

DRAFT

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai wybodaeth gefndirol mewn perthynas â gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a chyfeiriodd at yr heriau'n gysylltiedig â'r galw cynyddol ond diffyg adnoddau ychwanegol wrth weinyddu a darparu'r Grantiau. Mae'r Gwasanaeth yn derbyn yr adroddiad ar y cynllun gweithredu ac mae wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a godwyd erbyn 1 Gorffennaf 2024.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe byddai adroddiad yr archwiliad dilynol yn cynnwys gwybodaeth gefndirol yn gysylltiedig â Dyledion y Dreth gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion i helpu'r aelodau fynd at wraidd y mater mewn perthynas â'r dyledion sydd heb eu talu a sut y gellir mynd i'r afael â hwy. Nodwyd nad yw'r adroddiad yn cyfeirio at yr heriau, ffactorau lliniarol a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a gwella'r sefyllfa, fel y nodwyd gan y Swyddog Adran 151 yn ei gyflwyniad ar y cefndir. Aeth y Pwyllgor ymlaen i nodi y dylai aelodau, pan fo'r lefel sicrwydd yn gyfyngedig, ganolbwyntio ar gamau gweithredu a all gael effaith yn hytrach na meysydd sy'n annhebygol o wella wrth geisio adennill dyledion penodol, yn enwedig dyledion gofal cymdeithasol. Awgrymwyd y dylid mabwysiadu methodoleg rheoli prosiectau.
- Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Pwyllgor yn gwerthuso cyfanswm y dyledion nad oes modd eu hadennill er mwyn cynnig argymhellion ar y ffordd ymlaen.
- A oes fformiwla ar gyfer penderfynu pryd y mae ymdrechion i geisio adennill dyled yn mynd yn ofer.
- A yw'r broses ar gyfer hawlio rhyddhad ardrethi busnes yn rhy gymhleth fel bod pobl ddim yn trafferthu gwneud cais.
- Y modd y caiff dyledion eu trin ar fantolen y Cyngor fel rhan o'r cyfrifon.
- Mewn perthynas â gweinyddu'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn benodol y diffyg cyfatebiaeth rhwng dangosyddion perfformiad allweddol y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac amserlenni disgwyliedig Safonau Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru, roedd yr aelodau'n dymuno cael eglurder ynglyn â barn y Gwasanaeth Tai mai mater i'r Cyngor cyfan yw hwn, nid dim ond y Gwasanaeth Tai.
- Capasiti'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac a yw'r ddwy swydd wag yn debygol o effeithio ar ei allu i gyflawni'r cynllun archwilio.

Cynghorwyd y Pwyllgor -

- Bod y Gwasanaeth Adnoddau'n ceisio cytuno ar y dyledion y mae modd eu hadennill a chanolbwyntio ar y dyledion hynny er mwyn ceisio adennill cymaint o ddyledion â phosib gan dderbyn na fydd modd adennill pob dyled er gwaethaf pob ymdrech.
- Nad oes modd cynnal asesiad hyd nes y bydd yr ôl-groniad wedi cael ei ddidoli a'i ddadansoddi a hyd nes y bydd y Swyddog Adran 151 a'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi ystyried darparu adnodd ychwanegol ar gyfer y dasg, os oes cyllid ar gael. Mae pennu ffigwr ar gyfer cyfanswm y dyledion nad oes modd eu hadennill yn rhan o'r broses.
- Mae manylion y gwaith a gwblhawyd a'r gwaith sydd yn weddill i fynd i'r afael â'r materion a godwyd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu a gytunwyd gan y rheolwyr a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mater i'r Pwyllgor yw penderfynu a yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn darparu sicrwydd.
- Mewn perthynas â rhyddhad ardrethi busnes mae'r Gwasanaeth yn annog busnesau i wneud cais am ryddhad ac mae Menter Môn wedi bod yn gwneud hynny ar ei ran.
- Er bod dyledion gros yn ymddangos ar gyfrifon y Cyngor mae darpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi'i gynnwys yn y cyfrifon sy'n gostwng gwerth y ddyled net. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar oed, swm a natur y ddyled ac os ydi'r ddyled yn annhebygol o gael ei chasglu neu wedi heneiddio, mae'r ddarpariaeth yn uwch. Felly, mae'r cyfrif refeniw'n

amsugno'r golled sy'n golygu nad yw dyledion sy'n cael eu dileu yn arwain at gostau refeniw sylweddol unwaith ac am byth gan eu bod wedi'u cynnwys yn y ddarpariaeth flynyddol.

- Mewn perthynas â dangosyddion perfformiad y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fel mater i'r Cyngor, mae'n dibynnu a yw'r amserlen o'r cyswllt cyntaf â'r cleient, ac os felly bydd rhaid cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, neu a yw o'r adeg pryd y dechreuodd y Gwasanaeth Tai ar y gwaith addasu.
- Mewn perthynas â gallu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nid yw'r ddwy swydd wag yn y gwasanaeth wedi cael effaith ar y cynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth archwilio gan fod yr arbedion cyllidebol yn cael eu defnyddio i gomisiynu cymorth allanol yn enwedig ar gyfer meysydd arbenigol. Mae timau Archwilio Mewnol yn gyffredinol yn wynebu heriau.
- Mewn ymateb i gwestiwn am gyflwyno rhaglen i hyfforddeion graddedig cynghorwyd y Pwyllgor nad oes gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adnoddau / gapasiti ar hyn o bryd i gefnogi hyfforddai ac oherwydd y disgwyliadau ar dimau archwilio mewnol a'r sgiliau sydd eu hangen i ymdopi â'r her o ddarparu sicrwydd ac asesu risg wrth i'r meysydd yma ddod yn fwy cymhleth ac arbenigol mae'n rhaid i'r staff sy'n ymuno â'r gwasanaeth yn Ynys Môn fod yn archwilwyr cymwys, ar lefel uwch.

**Penderfynwyd nodi canlyniad y gwaith Archwilio Mewnol, a derbyn y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen.**

## 5. MATERION A RISGIAU SY'N WEDDILL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn nodi'r camau a oedd yn weddill ledled y Cyngor fel ac yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2024, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Darparwyd diweddariad ar y pum mater / risg "sylweddol" sydd yn weddill yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Prif Archwilydd ddiweddariad i'r Pwyllgor ar berfformiad a statws y camau a godwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a oedd i'w gweld yn y graffiau yn yr adroddiad, sydd heb eu cwblhau eto. Cadarnhaodd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwneud ei orau i ddilyn yr holl gamau sy'n weddill i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chynnydd y Cyngor mewn perthynas ag ymdrin â'r materion / risgiau sy'n weddill.**

## 6. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad a'r strategaeth sy'n seiliedig ar risg (roedd manylion yr archwiliadau arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad A yn y strategaeth). Er bod y strategaeth wedi cael ei gosod mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Penaethiaid Gwasanaeth bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynllunio i sicrhau bod y gwasanaeth yn ymwybodol o unrhyw faterion neu bryderon sy'n codi ac yn ymateb iddynt.

Pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Yn sgil y swyddi gwag yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a oes cysondeb rhwng y gwaith sydd ar y gweill a'r adnoddau sydd ar gael ac a yw'r cydbwysedd rhwng yr adnoddau mewnol a thrydydd parti yn cwrdd â'r gofynion o gofio mai dim ond un archwiliad sydd wedi'i drefnu lle mae angen comisiynu arbenigwyr allanol, a hynny mewn perthynas â seiber ddiogelwch.

- Y trefniadau recriwtio a chynllunio olyniaeth o fewn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mynegwyd rhywfaint o bryder ynglyn â'r goblygiadau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth a datblygu'r genhedlaeth nesaf o archwilwyr mewnol os mai dim ond uwch archwilwyr a dderbynnir i'r gwasanaeth yn Ynys Môn.
- A fyddai'n ddefnyddiol cael cylchrestr archwilwyr-cyfrifwyr i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio yn y gwasanaeth archwilio mewnol.
- O gofio mai un o amcanion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw darparu her effeithiol a bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol a gwelliannau parhaus, nid yw'r gwaith arfaethedig yn cyfeirio at y modd y caiff yr amcan hon ei chyflawni na rôl y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran cyfrannu at drawsnewid a newid gwasanaethau.
- Priodoldeb tynnu sylw rheolwyr/y Pwyllgor Gwaith at y materion recriwtio ac adnoddau sy'n dwysau.

Cynghorwyd y Pwyllgor –

- Bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn atebol i archwilydd allanol sy'n archwilio rhai o'r cofrestrau risg strategol cymhleth yn ogystal â'r Prif a'r Uwch Archwilwyr mewnol. Mae'r gwaith archwilio mewnol arfaethedig hefyd yn cynnwys meysydd risg anstrategol sydd wedi'u nodi o dan y pennawd gwaith archwilio arall.
- Mewn perthynas â staffio a recriwtio, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi newid llawer dros y blynyddoedd diwethaf ac wrth i adnoddau brinhau mae'r gwaith archwilio mewnol wedi newid i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i sicrhau'r gwerth gorau gyda'r adnoddau prin sydd ar gael sydd yn duedd sydd i'w weld mewn gwasanaethau eraill. Mae swyddi lefel / gradd is yn diflannu gan nad yw'r gwaith yn ychwanegu gwerth i'r sefydliad.
- Mae'n bosib bod mwy o gyfleoedd mewn timau archwilio mewnol mawr i hyfforddi graddedigion, ond yng Ngwasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn mae'n fwy effeithiol, effeithlon ac yn darparu mwy o werth am arian comisiynu archwilwyr medrus a phrofiadol o du allan i'r sefydliad i ychwanegu at yr adnoddau mewnol lle bo angen. Hefyd, mae'r gwasanaeth archwilio allanol yn asesu digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol.
- Prif ffocws y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw darparu sicrwydd, ac, er ei fod yn gallu gweithredu fel cyfaill beirniadol a herio (cyfeiriwyd at gyfraniad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i adolygiad y Gwasanaeth Tai o'i ddulliau caffael), mae'r gwasanaethau'n gyfrifol am reoli newid ac mae gan bob gwasanaeth ei Reolwr Busnes ei hun sy'n craffu ar brosesau a gweithdrefnau busnes ac yn eu gwella. Caiff prosiectau corfforaethol mawr eu rheoli gan y Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol.
- Byddai cael cylchrestr archwilwyr a chyfrifwyr yn her gan bod y ddwy rôl yn hollol wahanol.
- Mai rôl y Pwyllgor yw amlygu meysydd risg a all beri problem i'r Cyngor ac i gyfeirio'r rheiny at sylw'r Pwyllgor Gwaith neu reolwyr.

  Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad yw'r sefyllfa o ran capasiti'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi cyrraedd y pwynt lle mae angen cyfeirio'r mater, a chadarnhaodd bod gan y gwasanaeth archwilio mewnol adnoddau i gyflawni'r strategaeth a darparu barn sicrwydd.

Aeth y Pwyllgor ymlaen i awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol gofyn i'r Pennaeth Archwilio a Risg godi'r materion capasiti / recriwtio gyda Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod cyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu gweithgor i edrych ar y posibilrwydd o rannau adnoddau archwilio rhwng y chwe chyngor yng ngogledd Cymru.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn –**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol seiliedig ar risg 2024/25 a'i fod yn cytuno ei bod yn darparu'r sicrwydd gofynnol i'r Cyngor.**



DRAFT

- **Cytuno â gofynion archwilio mewnol o ran adnoddau a defnyddio ffynonellau sicrwydd eraill.**
- **Cytuno nad oes cwmpas amhriodol na chyfyngiadau o ran adnoddau.**

## 7. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad ac fe amlygodd y newidiadau i'r Siarter ers y tro diwethaf iddo gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022 a'r rheswm dros y newidiadau.

**Penderfynwyd nodi'r adolygiad a chymeradwyo'r newidiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

## 8. ADOLYGIADAU CENEDLAETHOL A'U HARGYMHELLION CYSYLLTIEDIG

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn nodi ymateb y Cyngor i adroddiadau cenedlaethol cydnabyddedig ac argymhellion cysylltiedig a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn diweddaru'r Pwyllgor ar y gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud dros y 15 mis diwethaf yn ychwanegol i'r hyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2022. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr argymhellion cenedlaethol a oedd ynghlwm â'r adroddiadau cenedlaethol wedi cael sylw dilys gan y Cyngor a bod y rhai perthnasol yn cael eu gwireddu mewn modd ystyrlon.

Y pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â ffurf a chynnwys yr adroddiad –

- Byddai'r adroddiad yn fwy hygyrch pe byddai'n cynnwys llai o naratif, cyd-destun a manylder.
- Y dylid canolbwyntio ar y camau / argymhellion sy'n weddill, ac unrhyw rwystrau o ran eu cwblhau a'r risg i'r Cyngor os na ellir eu gweithredu.
- Y dylid cynnwys dyddiad cyhoeddi'r adroddiadau cenedlaethol
- Bod statws CAG yn cael ei nodi ar gyfer y camau gweithredu.

Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod wedi bod yn cydlynu â'r Rheolwr Rhaglen, Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol i gynnwys yr argymhellion / camau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau cenedlaethol ar y system dracio 4action, ac fe awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cynhyrchu adroddiad ar ffurf yr adroddiad Risgiau / Materion Archwilio Mewnol sy'n Weddill ar gyfer adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion yn y dyfodol.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o ddiweddariad blynyddol y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig.**
- **Cytuno nad oes angen rhestru'r adroddiadau yr argymhellir eu dileu o fewn y tabl gwyrdd mewn adroddiadau yn y dyfodol.**

**Cam gweithredu ychwanegol a gytunwyd – Diwygio ffurf a chynnwys yr adroddiad ar adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion cysylltiedig.**

## 9. ARCHWILIAD ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru, a oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd yn erbyn ei raglenni gwaith archwilio ariannol a pherfformiad, fel ac yr oedd pethau ar 31 Rhagfyr 2023, i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Rhoddodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru, ddiweddariad i'r Pwyllgor ar waith archwilio ariannol a pherfformiad Archwilio Cymru.

Gofynnodd y Pwyllgor pe byddai modd cynnwys blaen adroddiad gydag adroddiadau Archwilio Cymru yn y dyfodol er mwyn nodi pwrpas yr adroddiad a'r disgwyliadau ar y Pwyllgor wrth ystyried yr adroddiad.

**Penderfynwyd nodi'r diweddariad ar Raglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru.**

**Cam gweithredu ychwanegol a gytunwyd – bod adroddiadau gan Archwilio Cymru yn y dyfodol yn cynnwys blaen adroddiad sy'n nodi pwrpas yr adroddiad a'r disgwyliadau ar y Pwyllgor wrth ystyried yr adroddiad.**

## 10. ARCHWILIO ALLANOL: CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2023 – CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru, a oedd yn darparu crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru a oedd yn tynnu sylw at ddemograffeg Ynys Môn, yn benodol ei phoblogaeth sy'n heneiddio fel ystyriaeth sylweddol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau yn y dyfodol.

**Penderfynwyd nodi'r Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 ar gyfer Ynys Môn.**

**Cam gweithredu ychwanegol a gytunwyd – fel y cytunwyd ar gyfer eitem 9**

## 11. ADOLYGIAD O'R BLAENRAGLEN WAITH 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith a Rhaglen Hyfforddi'r Pwyllgor ar gyfer 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Bu i'r Pennaeth Archwilio a Risg amlygu'r newidiadau i'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn bod y Blaenraglen Waith ar gyfer 2023/24 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**
- **Nodi'r newidiadau i'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau.**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.



DRAFT

**13. ADRODDIAD DIOGELWCH SEIBER BLYNYDDOL 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Diogelwch Seiber Blynyddol, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r heriau o ran y profiadau diogelwch seiber yn 2023/24 a sut y cawsant eu goresgyn, y bygythiadau seiber a wynebir gan y Cyngor a'r mesurau lliniaru a'r trefniadau gweithredol sydd ar waith i ganfod ac atal gweithgareddau maleisus.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Tîm TG a rhoddodd drosolwg o'r cynnwys.

Y pwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor –

- Y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Aelodau yn cael gwybodaeth mewn adroddiadau yn y dyfodol am ymdrechion llwyddiannus i dorri mesurau seiber ddiogelwch / TG y Cyngor a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy a'r camau a gymerwyd.
- Rôl perchnogion meddalwedd o ran darparu dulliau rhybuddio.
- Goblygiadau'r twf mewn Deallusrwydd Artiffisial.

Cynghorwyd y Pwyllgor bod polisi amlinellol drafft ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial wrthi'n cael ei baratoi ac y bydd yn mynd i'r afael â'r dull gweithredu, y risgiau a'r mesurau lliniarol a fydd yn cael eu rhoi ar waith.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Diogelwch Seiber Blynyddol ar gyfer 2023/24.**

**Cam gweithredu ychwanegol a gytunwyd - bod yr Adroddiadau Diogelwch Seiber Blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys enghreifftiau (os oes unrhyw enghreifftiau ar gael) am ymdrechion llwyddiannus i dorri mesurau seiber ddiogelwch / TG y Cyngor ac unrhyw gamau adferol a gymerwyd.**

*Yn dilyn y cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor, cynhaliwyd cyfarfod preifat rhwng aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, archwilio allanol ac archwilio mewnol heb unrhyw swyddogion yn bresennol.*

**Mr Dilwyn Evans**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris, Keith Roberts, Margaret M Roberts, Liz Wood and Ieuan Williams<br><br>Aelodau Lleyg – Mr Dilwyn Evans, Mr William Parry, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd T Ll Hughes MBE<br>Mr Michael Wilson – Aelod Lleyg |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Y Cynghorydd Glyn Haynes – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Dilwyn Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**3 ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Euryn Morris yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc** | Archwilio Cymru – Cynllun Archwilio 2024 - Drafft |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>carysedwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Rhaglen<br>gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol iddo oruchwylio'r trefniadau archwilio allanol, rhoi sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol ac yn monitro eu hargymhellion. (3.4.8.11.3) Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a rhoi adborth i Archwilio Cymru ar ei gynnwys. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad yn nodi'r gwaith y mae Archwilio Cymru yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd ffocws allweddol eraill yn ystod 2024.

1.2 Mae hefyd yn nodi amcangyfrif o'r ffi archwilio, manylion y tîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau'r tîm archwilio ac allbynnau cynlluniedig.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi adborth ar y gwaith archwilio arfaethedig a'r ffioedd cysylltiedig ar gyfer 2024.

# Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Archwilio Manwl 2024

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4292A2024



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Datganiad Cyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw ar y cyd anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân i bob un â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ynddo'i hun.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb na'r archwilydd penodedig lle bo'n briodol, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod Adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 7 |
| Priodoldeb datganiadau ariannol | 8 |
| Risgiau ariannol sylweddol | 9 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 10 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 12 |
| Gwaith archwilio perfformiad wedi'i gynllunio | 13 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 14 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 14 |
| Ffi a’r tîm archwilio | 15 |
| Ansawdd archwilio | 17 |
| Cefnogi chi | 18 |

# Cyflwyniad

Rwyf bellach wedi cwblhau fy ngwaith cynllunio yn bennaf.

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn pennu fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd ffocws allweddol eraill yn ystod 2024.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau fy nhîm archwilio ac allbynnau cynlluniedig.



## Archwilio datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' a'r paratoad priodol yn unol â gofynion cyfrifyddu.

Byddaf hefyd yn adrodd drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad Cyfrifoldebau.

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae gennyf gyfrifoldeb hefyd am:

- ardystio dychwelyd i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am Ynys Môn i gefnogi paratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch cyfrifon etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os oes angen); ac
- ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff cyllido.

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar wirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond yn mabwysiadu cysyniad o fateroldeb. Fy nod yw nodi camddatganiadau materol, hynny yw, y rhai a allai arwain at gamarwain darllenydd o'r cyfrifon. Mae'r lefelau yr wyf yn barnu camddatganiadau o'r fath yn faterol wedi'u nodi yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Gwaith archwilio perfformiad

Mae'n rhaid i mi fodloni fy hun bod y Cyngor:

- wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Rwy'n gwneud hyn drwy ymgymryd â rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn.
- yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

Mae fy rhaglen waith yn cael ei llywio gan faterion a risgiau penodol sy'n wynebu'r Cyngor a llywodraeth leol ehangach yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud neu ei gynllunio gan gyrff adolygu allanol eraill a thrwy archwiliad mewnol.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad leol yn parhau i gael ei chyflwyno drwy gyfuniad o Brosiect Asesu Sicrwydd a Risg, prosiectau lleol pwrpasol a phrosiectau thematig sy'n archwilio risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi'i gynllunio i gydymffurfio â safonau archwilio a nodwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI). Mae hwn yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

# Cipolwg ar eich archwiliad

## Bydd fy archwiliad datganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd ffocws eraill

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Perygl datganiad ariannol sylweddol
- Y risg o reoli rheolaeth yn diystyru rheolaethau

Meysydd eraill o ffocws archwilio
- Prisio atebolrwydd net cronfa bensiwn
- Prisiad tir ac adeiladau

## Bydd fy archwiliad perfformiad yn cynnwys:

- Asesiad Sicrwydd a Risg
- Gwaith lleol – Adolygiad o Drefniadau Seiberddiogelwch
- Gwaith prosiect lleol – Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd

## Perthnasedd

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £2.967 miliwn |
| Trothwy adrodd | ££148k (5% o berthnasedd) |

## Perthnasedd £2.967 miliwn

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau materol, hynny yw, y rhai a allai fel arall gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

Ar y cam cynllunio, cyfrifir materoldeb gan ddefnyddio:

- Gwariant gros 2022-23 o £296.7 miliwn. Bydd gwariant gros gwirioneddol 2023-24 yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru ein cyfrifiad materol pan fydd ar gael.
- Canran materoldeb o 1%

Rwy'n adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu unrhyw gamddatganiadau sy'n uwch na lefel ddibwys (wedi'u gosod ar 5% o fateroldeb).

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Mae rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi gosod lefel fateroldeb is ar gyfer y rhain:

- Datgeliadau cydnabyddiaeth o £1,000
- Datgeliadau parti cysylltiedig £10,000 (Unigolion),

# Risgiau ariannol sylweddol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad materol y mae'r asesiad risg gynhenid yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion ISAs eraill. Mae'r ISAs yn ei gwneud yn ofynnol i ni ganolbwyntio mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: Risgiau datganiad ariannol sylweddol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
| --- | --- |
| Mae'r risg o reoli diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob corff. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gorwneud o'r fath ddigwydd, mae'n cael ei ystyried yn risg sylweddol [ISA 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifeg ar gyfer tuedd;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i gwrs busnes arferol; |

Nid yw'r tîm archwilio eto i ddod â phob maes o'r asesiad risg i ben. Pe bai unrhyw risgiau ariannol sylweddol pellach yn codi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddwn yn diweddaru'r swyddog S151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy ei gadeirydd ac yn ailgyhoeddi fy Nghynllun Archwilio Manwl os bydd angen.

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Nodais risgiau eraill a nodwyd o gamddatganiad materol sydd, er nad yw'n benderfynol o fod yn risgiau sylweddol fel uchod, hoffwn dynnu eich sylw atynt.

**Arddangosyn 2: meysydd ffocws eraill**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio atebolrwydd net cronfa bensiwn**<br>Amcangyfrifon materol yw'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ac atebolrwydd y gronfa bensiwn fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.<br>Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo.<br>Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr atebolrwydd ar 31 Mawrth 2023 er enghraifft, roedd yr atebolrwydd mewn gwirionedd yn warged, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.<br>Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad atebolrwydd net. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif yr atebolrwydd;<br>• profi cywirdeb atebolrwydd a datgeliadau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd o'r actiwari;<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghori (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac<br>• asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith sylweddol ar atebolrwydd net ac, os felly, cadarnhewch fod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.<br>Pe bai'r gronfa bensiwn mewn sefyllfa dros ben net eto eleni bydd y tîm archwilio:<br>• deall proses yr actiwari ar gyfer cyfrifo'r gwarged y gellir ei adnabod ar 31 Mawrth 2023; ac<br>• ystyried a oes modd adnabod y gwarged o dan IFRIC 14. |

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
| --- | --- |
| **Prisiad tir ac adeiladau**<br>Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon materol.<br>Mae'n ofynnol cadw tir ac adeiladau ar sail prisio sy'n ddibynnol ar natur a defnydd yr asedau. Mae'r amcangyfrif hwn yn amodol ar lefel uchel o goddrychedd, yn dibynnu ar y tybiaethau arbenigol a rheoli, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau sylweddol i brisiadau.<br>Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd hefyd newid o flwyddyn i flwyddyn, ac mae risg y gallai gwerth cario asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar 31 Mawrth 2024, yn enwedig yn yr amgylchedd economaidd presennol. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• adolygu'r wybodaeth a ddarperir i'r prisiwr i asesu ar gyfer cyflawnrwydd;<br>• gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;<br>• profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, y data a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, ac mae'r ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a<br>• phrofi’r cymod rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau. |

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodais isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflwyno fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau a gynlluniwyd.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflwyno allbynnau wedi'u cynllunio**

| Allbwn wedi'i gynllunio | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
| --- | --- | --- |
| Cynllun Archwilio Manwl 2024 | Ebrill – Mai 2024 | Mehefin 2024 |
| Mae archwiliad o ddatganiadau ariannol yn gweithio:<br>• Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y datganiadau ariannol | Gorffennaf - Tachwedd 2024 | Tachwedd 2024 |

# Gwaith archwilio perfformiad wedi'i gynllunio

Nodais isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau a gynlluniwyd.

**Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflwyno allbynnau wedi'u cynllunio**

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd ac asesiad risg** | Prosiect i nodi lefel sicrwydd archwilio a/neu lle gallai fod angen gwaith archwilio pellach yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Parhaus |
| **Gwaith prosiect lleol – Adolygiad o Drefniadau Seiberddiogelwch** | Adolygiad o'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar waith i ddarparu seiberddiogelwch. | Bydd amserlenni ar gyfer y prosiect yn cael eu trafod gyda'r Cyngor a'u manylu yn y briff prosiect penodol a gynhyrchwyd ar gyfer yr archwiliad. |
| **Gwaith prosiect lleol – Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd** | Adolygiad o'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar waith i sefydlu awdurdod iechyd porthladdoedd. | Bydd amserlenni ar gyfer y prosiect yn cael eu trafod gyda'r Cyngor a'u manylu yn y briff prosiect penodol a gynhyrchwyd ar gyfer yr archwiliad. |

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Gofynnwyd i mi hefyd ymgymryd â gwaith ardystio ar hawliadau grant y Cyngor, a fydd, rwy'n rhagweld, yn cynnwys Budd-daliadau Tai, Pensiynau Athrawon, NDR a ffurflenni cyllideb cyfun.

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Archwiliad Adran 30 o ddogfennau a chwestiynau wrth eu harchwilio; a
- Adran 31 Yr hawl i wrthwynebu wrth archwilio.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffi isod. Os byddaf yn derbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a’r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Ffioedd ar gyfer y flwyddyn 2024-25 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2024-25 wedi cynyddu 6.4% ar gyfartaledd, o ganlyniad i bwysau chwyddiant anochel a'r angen parhaus i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio.

Rwy'n amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £433,800.

Bydd y gwaith cynllunio yn parhau, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni wnaf unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth - Adnoddau.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r dulliau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodir unrhyw faterion o arwyddocâd ar wahân i'r hyn a grynhoir yn y cynllun hwn, yn ystod yr archwiliad.

**Arddangosyn 5: dadansoddiad o'r ffi archwilio**

| Ardal archwilio | Ffi arfaethedig ar gyfer 2024 (£)[1] | Amcangyfrif o'r ffi ar gyfer 2023 (£) |
|---|---|---|
| Archwilio datganiadau ariannol[2] | 243,319 | 199,087 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 115,481 | 103,908 |
| Gwaith ardystio grant[4] | 70,000-80,000 | 65,000-75,000 |
| **Cyfanswm ffi** | **433,800** | **372,995** |

[1] Mae'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn gyfyngedig i TAW, nad yw'n cael ei godi arnoch chi.

[2] Yn daladwy Tachwedd 2023 i Hydref 2024.

[3] Yn daladwy o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025.

[4] Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud.

Mae prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn cael eu crynhoi yn Arddangosyn **6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Swydd | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Cyfarwyddwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Gary Emery | Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Cyfarwyddwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | gary.emery@archwilio.cymru |
| Rachel Freitag | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | rachel.freitag@archwilio.cymru |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | carwyn.rees@archwilio.cymru |
| David Tomalin | Archwilydd Arweiniol (Archwilio Ariannol) | david.tomalin@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Archwilydd Arweiniol (Archwilio Perfformiad) | alan.hughes@ archwilio.cymru |

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o'r tîm yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i archwilio ansawdd yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model sicrwydd tair llinell i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Rydym yn destun ein gwaith craffu annibynnol gan QAD* a'n Cadeirydd, yn gweithredu fel dolen i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023.



## Ein Pobl

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



## Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



## Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

# Cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi craffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i gefnogi'r cyrff hynny i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Ewch i'n gwefan i ddod o hyd i:

| | |
|---|---|
| | ein gwaith Arfer Da, lle rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli. |
| | ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau. |
| | ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu'r gwaith a gwblhawyd gennym wrth archwilio cyrff cyhoeddus. |
| | gwybodaeth am ein blaenraglen o waith archwilio perfformiad 2023-2026 a gaiff ei llywio gan weithgarwch ymgysylltu rhanddeiliaid a'n darlun o ddadansoddi gwasanaethau cyhoeddus. |
| | offer data a ffeithluniau amrywiol i'ch helpu i ddeall tueddiadau o ran gwariant cyhoeddus yn well, gan gynnwys amrywiaeth o wybodaeth arall am y gwaith o graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. |

Gallwch ddod o hyd i fwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Ein Strategaeth 2022-27.

.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru

Gwefan www.audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor yn unol â'r argymhelliad yn hunanasesiad y Pwyllgor a hwyluswyd gan CIPFA. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad yn dilyn darn o waith a gwblhawyd i fodloni gofynion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022, sy'n argymell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.

1.2. Cymharodd CIPFA gylch gorchwyl Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor â'r cylch gorchwyl enghreifftiol yn y canllawiau a gyhoeddodd i bwyllgorau archwilio yn 2022 a nodwyd y canlynol:

- Mae cyfeiriadau penodol at y mwyafrif o'r meysydd disgwyliedig a chyfeiriadau dealledig at y rhan fwyaf o'r meysydd sy'n weddill. Roedd ychydig o fanylion ar goll (mewn perthynas â'r cyfrifon), ac mewn rhai achosion eraill gallai manylion ychwanegol ynghylch gweithgareddau risg gyfyngu ar gwmpas gwaith y pwyllgor os gweithredir arnynt yn llythrennol. Mae rhai cymalau yn gorgyffwrdd â'i gilydd, a allai arwain at ddryswch.

- Nodwyd chwe adroddiad blynyddol a ddaeth i'r pwyllgor nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol ar y cylch gorchwyl.

1.3. O ganlyniad, roedd yr adroddiad yn argymell:

- Diwygio a symleiddio cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys pob agwedd ar ei waith, a dileu unrhyw ddyblygu.

1.4. Yn unol â hynny, diwygiwyd a symleiddiwyd y Cylch Gorchwyl ac mae copi ynghlwm i'w ystyried.

1.5. Mae’r aelodau eisoes wedi cael cyfle i edrych ar ddogfen fanwl a oedd yn amlygu’r newidiadau ac yn egluro’r rhesymau dros y newidiadau. Roedd cyfle hefyd i sicrhau cysondeb o ran gramadeg a fformat y ddogfen.

1.6. Gofynnwyd i’r aelodau gynnig unrhyw newidiadau erbyn 11 Mehefin 2024 fan bellaf. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law.

1.7. Felly, cyflwynir y Cylch Gorchwyl diwygiedig i’r cyfarfod hwn i’w gymeradwyo’n ffurfiol.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo’r Cylch Gorchwyl diwygiedig yn ffurfiol.

## 3.4.8 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl

### 3.4.8.1 Datganiad o bwrpas

3.4.8.1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

3.4.8.1.2 Pwrpas y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu.

3.4.8.1.3 Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith ar gyfer herio mewnol ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae hefyd yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol. Mae hefyd yn derbyn sylwadau ar adroddiad hunanasesu blynyddol y Cyngor ac adroddiad y panel asesu perfformiad.

3.4.8.1.4 Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y Cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

### 3.4.8.2 Cyfansoddiad a threfniadau

3.4.8.2.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y Pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

3.4.8.2.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys traean o aelodau lleyg; wyth aelod etholedig a phedwar aelodau lleyg, fydd yn cael eu recriwtio trwy ymarfer recriwtio cyhoeddus. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg ac ni fydd yr Is-gadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith na'n gynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor ar y mwyaf. Mae Cod Ymddygiad y Cyngor yn berthnasol i'r holl aelodau, gan gynnwys yr aelodau lleyg, a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.2.3 Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar gadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys yr aelodau lleyg, bleidlais.

3.4.8.2.4 Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud hynny. Mae disgwyl iddynt ddarparu atebion gonest, agored a chyflawn i gwestiynau a godir gan y Pwyllgor. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

3.4.8.2.5. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, os rhoddir y nifer gofynnol o ddyddiau o rybudd, a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

3.4.8.2.6 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat gyda’r archwilwyr mewnol ac allanol, o leiaf unwaith y flwyddyn, ac ni fydd swyddogion yn bresennol. Nid oes angen agenda ac nid oes angen hysbysu’r Cadeirydd ymlaen llaw am unrhyw faterion fydd yn cael eu codi.

3.4.8.2.7 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor, trwy’r Cadeirydd fel arfer.

3.4.8.2.8 Gall y pwyllgor ofyn am waith ychwanegol gan yr archwilwyr allanol a mewnol ond yr archwilwyr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

3.4.8.2.9 Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor hawl i ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

3.4.8.2.10 Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r Pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

### 3.4.8.3 Trefniadau atebolrwydd

3.4.8.3.1 Bydd y Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

3.4.8.3.2 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y Pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i

gylch gorchwyl cytunedig, a bydd yn cynnwys casgliad ynglŷn â chydymffurfio â Datganiad Sefyllfa y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi’r gwaith o gynllunio rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a chynlluniau hyfforddi, a bydd yn sail i adroddiad blynyddol y Pwyllgor.

3.4.8.3.3 Mae'r Pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy’n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon. Y Pwyllgor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, gan ddilyn cyngor Swyddog Monitro’r Cyngor.

**3.4.8.4 Adrodd ar Lywodraethu**

3.4.8.4.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y cod llywodraethu lleol.

3.4.8.4.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn a bydd yn ystyried p’un yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg. Bydd yn ystyried p’un a yw’r arfarniad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn casglu’n deg bod y trefniadau llywodraethu yn addas i bwrpas, a’u bod yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr awdurdod.

3.4.8.4.3 Bydd y Pwyllgor yn cynorthwyo’r Cyngor i roi gwerthoedd llywodraethu moesegol ar waith. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd a darparu adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, ymddwyn ag uniondeb, a chydymffurfiaeth gyfreithiol ar bob lefel.

3.4.8.4.4 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys. I’r perwyl hwn, bydd y Pwyllgor yn derbyn copi o adroddiad blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3.4.8.5 Rheoli Trysorlys**

3.4.8.5.1 Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.2 Bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

3.4.8.5.3 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.4 Bydd y Pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu’r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

**3.4.8.6 Gwerth am arian**

3.4.8.6.1 Bydd y Pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

3.4.8.6.2 Bydd y Pwyllgor yn ystyried trefniadau’r Cyngor i sicrhau gwerth am arian.

3.4.8.6.3 Bydd y Pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

**3.4.8.7 Fframwaith sicrwydd**

3.4.8.7.1 Bydd y Pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol.

3.4.8.7.2 Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu’n glir ar gyfer darparu sicrwydd a bod dyblygu yn cael ei osgoi.

3.4.8.7.3 Mae adroddiadau sicrwydd blynyddol a dderbynnir gan y Pwyllgor yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i:

- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Seiberddiogelwch
- Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth
- Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion
- Yswiriant

**3.4.8.8 Rheoli risg**

3.4.8.8.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu, asesu ac adrodd ar ddatblygu a rhoi trefniadau rheoli risg effeithiol ar waith yn y Cyngor. Yn benodol, bydd yn:

- Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u rhoi ar waith.
- Goruchwylio’r modd y caiff rheoli risg ei ymgorffori ym mhrosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad.
- Adolygu'r trefniadau i gydlynu ac arwain y gwaith rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd.
- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a risgiau prosiect mawr.

- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth.
- Ceisio sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori yn y broses rheoli risg.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu arferion da yn y maes rheoli risg, a’u hymgorffori, trwy oruchwylio unrhyw arfarniad neu werthusiad o drefniadau’r Cyngor, megis asesiad o aeddfedrwydd risgiau neu feincnodi risgiau, ac adolygu adroddiadau arfarnu, sicrwydd ac archwilio mewn perthynas â rheoli risgiau a monitro cynnydd cynlluniau gwella.

3.4.8.8.2 Bydd sicrwydd ynghylch rheoli risgiau yn elfen allweddol sy’n sail i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.8.3 Pan fydd y Pwyllgor yn gweithredu fel pwyllgor risgiau bydd yn:

- Adolygu’r gofrestr risgiau strategol, gan geisio sicrwydd bod rheolwyr, mewn modd priodol, yn perchnogi ac yn rheoli risgiau’n effeithiol.
- Ystyried digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i gasglu ac asesu risgiau strategol.
- Arfarnu p’un a yw camau lliniaru a gynlluniwyd yn briodol ac yn effeithiol, gan wneud argymhellion i’r perchennog risg cyfrifol lle bo hynny’n briodol.

**3.4.8.9 Mynd i'r afael â thwyll a llygredd**

3.4.8.9.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y Cyngor, gan gynnwys y polisi.

3.4.8.9.2 Bydd gan y Pwyllgor drosolwg o drefniadau’r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau twyll a llygredd, gan ddarparu sicrwydd eu bod yn addas i bwrpas a bydd yn hyrwyddo arfer atal twyll ac atal llygredd da yn y sefydliad ehangach.

3.4.8.9.3 Bydd y Pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau atal twyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni’r arferion a argymhellir, y safonau llywodraethu a’r ddeddfwriaeth.

3.4.8.9.4 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r Cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.

3.4.8.9.5 Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

3.4.8.9.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y sicrwydd a ddarparwyd gan archwilio mewnol.

**3.4.8.10 Archwilio mewnol**

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.

3.4.8.10.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

3.4.8.10.3 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.5 Bydd y Pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol gyda rheolwyr a'r Pennaeth Archwilio a Risg i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

3.4.8.10.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad gwasanaethau archwilio mewnol sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr allanol.

3.4.8.10.7 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.8 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau'r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.9 Bydd y Pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.10 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod, neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.12 Bydd y Pwyllgor yn ystyried, cymeradwyo, ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw gamau diogelu a roddir ar waith i gyfyngu ar unrhyw beth sy'n amharu ar annibyniaeth a gwrthrychedd y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y Pennaeth Archwilio a Risg tu allan i'r maes archwilio mewnol.

3.4.8.10.13 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

3.4.8.10.14 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.15 Bydd y Pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y Pennaeth Archwilio a Risg, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

**3.4.8.11 Archwilio allanol**

3.4.8.11.1 Bydd y Pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwilio allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

3.4.8.11.2 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol eraill a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*.

3.4.8.11.3 Bydd y Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

3.4.8.11.4 Bydd y Pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.

3.4.8.11.5 Bydd cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod yn breifat ac ar wahân gyda'r archwilydd allanol, yn annibynnol o'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

**3.4.8.12 Adroddiadau ariannol**

3.4.8.12.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y Cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

3.4.8.12.2 Bydd y Pwyllgor yn monitro’r trefniadau a’r paratoadau ar gyfer darparu adroddiadau ariannol er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion statudol a safonau proffesiynol.

3.4.8.12.3 Bydd y Pwyllgor yn adolygu datganiadau ariannol y Cyngor, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

3.4.8.12.4 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon a ph’un a oes angen eu dwyn i sylw'r Cyngor ai peidio.

3.4.8.12.5 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli ariannol, gan gynnwys cydymffurfio â Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

**3.4.8.13 Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill**

3.4.8.13.1 Bydd y Pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

**3.4.8.14 Delio â Chwynion**

3.4.8.14.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol. I’r perwyl hwn, bydd yn derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru .

3.4.8.14.2 Bydd y Pwyllgor yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

**3.4.8.15 Adroddiad Hunanasesu**

3.4.8.15.1 Bob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor yn derbyn drafft o adroddiad hunanasesu’r Cyngor gan y Pwyllgor Gwaith [i'w ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu prif gynghorau)]

3.4.8.15.2 Bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad drafft gan y Pwyllgor Gwaith cyn pen pedair wythnos i'r Pwyllgor Gwaith wneud yr adroddiad.

3.4.8.15.3 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r adroddiad drafft a chaiff argymell newidiadau i'r casgliadau, neu i unrhyw beth a gynhwysir gan y Pwyllgor Gwaith o ran y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, er mwyn gwella i ba raddau y bydd yn cwrdd â'r gofyniad perfformiad yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

3.4.8.15.4 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi, yn yr adroddiad gyda rhesymau pam nad yw'r Pwyllgor Gwaith wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**.**

**3.4.8.16 Asesiad o berfformiad gan Banel**

3.4.8.16.1 O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r Cyngor. Gall y Cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

3.4.8.16.2 Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf. Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am hyn ar ran y Cyngor.

3.4.8.16.3 Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w Bwyllgor llywodraethu ac Archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

3.4.8.16.4 Os nad yw'r Pwyllgor Gwaith yn gwneud newid a argymhellwyd gan y Pwyllgor llywodraethu ac Archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad yn ei ymateb terfynol a'r rhesymau pam na wnaethpwyd y newid ganddo.

**3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol**

3.4.8.17.1 Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.17.2 Pe bai gofyn i'r Cyngor ymateb i adroddiad a gyhoeddir yn unol â pharagraff 3.4.8.17.1 uchod, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod drafft o'r ymateb ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i'r Pwyllgor adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiad a wnaed mewn ymateb i ba gamau, os o gwbl, y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

3.4.8.17.3 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor cyn cyhoeddi, yn yr ymateb gyda rhesymau pam nad yw'r Cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2023-24 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio holl drefniadau archwilio mewnol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn gofyn iddo:

- Adolygu adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad archwilio mewnol.
- Ystyried y gwerthusiad ar briodoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli fframwaith y Cyngor, a'r gwaith sy'n cefnogi'r asesiad hwn, ac ystyried hyn wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Asesu lefel y gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliannau, sy'n cefnogi dibynadwyedd y casgliadau ar archwilio mewnol.

Yn ychwanegol at hyn, mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn i bob prif swyddog archwilio gweithredol baratoi Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio holl drefniadau archwilio mewnol y Cyngor (3.4.8.10.1).

1.2. Mae'r cylch gorchwyl hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol sy'n cynnig gwasanaethau archwilio mewnol (3.4.8.10.6).

1.3. Gofynnir i'r Pwyllgor hefyd ystyried y safbwynt cyffredinol ar briodoldeb ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor a sut mae'n rheoli risg ynghyd â chrynodeb ar y gwaith o gefnogi'r safbwynt hwnnw. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (3.4.8.10.7).

1.4. Gofynnir i'r Pwyllgor hefyd ystyried y datganiad sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad blynyddol mewn perthynas â lefel y gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliannau sy'n cefnogi'r datganiad – bydd y rhain yn mynegi dibynadwyedd casgliadau'r archwiliad mewnol (3.4.8.10.8).

1.5. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus hefyd yn gofyn i'r prif swyddog archwilio gweithredol baratoi Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol (Safon 2450).

1.6. Felly, mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2023-24 i'r Pwyllgor, yn ogystal â safbwynt cyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ar briodoldeb ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, sut mae'n rheoli risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'i 'safbwynt' cyffredinol, yn bennaf er mwyn cefnogi'r Pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:

- Crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a ddarparwyd.
- Y safbwynt cyffredinol.
- Perfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, yn bennaf, nodi lefel y gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

# Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 23-24

Mehefin 2024





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys

Cyflwyniad ____ 1
Barn Archwilio Mewnol ____ 2
Materion sy'n berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ____ 2
Sail fy Marn ____ 3
Materion/Risgiau a Godwyd ____ 4
Ein Perfformiad ____ 7
Hyfforddi a Datblygu ____ 8
Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ____ 9
Datganiad o Annibyniaeth (Safon 1110) ____ 9
Heriau a chyfleoedd wrth symud ymlaen ____ 10
Atodiad A: Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd 2023-24 ____ 11
Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Llinell) – Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 2023-24 ____ 12
Atodiad C: Sicrwydd Trydedd Llinell – Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2023-24 ____ 15
Atodiad D: Cynllun Gweithredu Hunan-asesiad Blynyddol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ____ 16

# Cyflwyniad

1. Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n rhaid i'r 'prif swyddog archwilio', sef y Pennaeth Archwilio a Risg yn achos y Cyngor, gyflwyno barn archwilio mewnol y gall y sefydliad ei defnyddio i lywio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol[1].

2. Mae'r farn flynyddol yn cynnwys:

    - Barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad.
    - Datgelu unrhyw amodau ar y farn honno, ynghyd â'r rheswm am yr amod.
    - Unrhyw faterion sydd, ym marn y prif swyddog archwilio, yn arbennig o berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
    - Crynodeb o'r gwaith archwilio y mae'r farn yn seiliedig arno, yn cynnwys dibyniaeth a roddwyd ar gyrff sicrwydd eraill.
    - Crynodeb o berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad.
    - Sylwadau ar gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a rhannu canlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd Archwilio Mewnol.
    - Datganiad o Annibyniaeth

[1] Dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n rhaid adrodd ar adolygiad o drefniadau llywodraethu yn fewnol, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn achos y Cyngor, ac yn allanol yn y cyfrifon a gyhoeddir. Adolygiad blynyddol o systemau rheoli mewnol yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) ac mae'n casglu sicrwydd o wahanol ffynonellau i'w ategu. Mae Archwilio Mewnol yn gyfrannwr allweddol ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu i ategu'r DLIB.

# Barn Archwilio Mewnol

### Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24

**Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith ddigonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.**

**Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.**

**Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.**



# Materion sy'n berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

3. Nid oes unrhyw faterion sydd o risg uchel nac effaith sylweddol sydd angen eu crybwyll yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
4. Yn ystod 2023-24, rydym o'r farn bod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion rydym wedi'u codi. Mae gennym berthynas dda gyda rheolwyr; maent yn barod i drafod y meysydd hynny sydd, yn eu barn nhw, yn debygol o wynebu problemau, ac maent yn ystyried canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau.
5. Rydym hefyd wedi cael ein comisiynu i wneud gwaith cynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais rheolwyr, oedd yn dangos bod rheolwyr yn barod i weithio gydag Archwilio Mewnol i sefydlu amgylcheddau risg a rheolaeth da.

# Sail fy Marn

## Sgôp

6. Rydw i wedi cyrraedd fy marn trwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn, sy'n cael eu trafod ymhellach isod. Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd yn ymwneud â'r Cyngor. Mae'n deillio'n sylweddol o bennu strategaeth seiliedig ar risg, y mae rheolwyr wedi cyfrannu ati ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd ym mis Ebrill 2023. Dylai ddarparu sicrwydd rhesymol, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid isod.

## Cyfyngiadau

7. Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw wrth i ni gyflawni ein gwaith a'n gweithgareddau o fewn y Cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellir eu gwneud. Ni ddylid ystyried chwaith bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn disodli cyfrifoldeb rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a all fodoli.

## Sicrwydd Trydedd Llinell[2]

8. Er mwyn cael sicrwydd digonol i lywio'r barn, roedd yn rhaid ystyried adolygiadau archwilio mewnol ar y risg strategol a gwaith archwilio arall, a'r raddfa sicrwydd a ddarparwyd:

### Archwilio Risgiau Strategol

9. Yn ystod 2023-24, yn dilyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o risgiau'r Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol, barnwyd bod 11 ohonynt (11 yn 2022-23) â gradd risg weddilliol coch neu ambr a chawsant eu cofnodi yn y gofrestr risg strategol.

10. Rydym yn anelu i archwilio 80% o risgiau gweddilliol coch ac ambr yn ystod cylch dwy flynedd. Adolygom 9 (82%) (9 / 82% yn 2022-23) o'r risgiau hyn yn ystod cyfnod o 24 mis (Manylion yn Atodiad B).

11. Roeddem yn gallu darparu sicrwydd 'Rhesymol' bod y Cyngor yn rheoli pob risg strategol a adolygwyd gennym yn effeithiol.

### Gwaith Archwilio Arall

12. Adolygom feysydd allweddol eraill o weithgareddau'r Cyngor hefyd, yn cynnwys meysydd yr oedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi codi pryderon yn eu cylch (Manylion yn Atodiad C).

13. O'r 14 archwiliad (11 yn 2022-23) o'r math hwn a gynhaliwyd yn 2023-24, rhoddwyd y sicrwydd canlynol:

- Dim wedi derbyn sicrwydd 'Sylweddol' (dim yn 2022-23),
- Wyth gyda sicrwydd 'Rhesymol' (saith yn 2022-23),
- Dau gyda sicrwydd 'Cyfyngedig' (dau yn 2022-23), a,

14. Ni ddarparwyd graddfeydd sicrwydd ar gyfer tri archwiliad a Gwiriad Iechyd ar gyfer trefniadau Rheoli Risg y Cyngor a gwblhawyd gan Zurich Resilience Solutions.

15. Mae'r ddau adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn ymwneud ag archwiliad ar y Dreth Gyngor, Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) ac Adfer Mân Ddyledion. Yn dilyn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Medi 2023, gwnaethom gwblhau archwiliad dilynol ym mis


[2] Mae diffiniadau o raddfeydd sicrwydd oedd ar waith yn 2023-24 i'w gweld yn Atodiad A

Mawrth 2024. Er bod ein gwaith dilynol wedi adnabod cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â rhai o'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadolygiad gwreiddiol, roedd angen gwaith pellach ers mwyn gweithredu proses effeithiol i adolygu ac adfer hen ddyledion.

16. Felly, nid oeddem yn gallu codi'r raddfa sicrwydd o'r raddfa gyfyngedig ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnal archwiliad dilynol yn ystod 2024-25.

**Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a ddarparwyd yn 2023-24**

17. Ar y cyfan, roeddem yn gallu darparu sicrwydd 'Rhesymol' neu uwch ar gyfer 86% (83% yn 2021-22) o'r archwiliadau a gwblhawyd yn ystod 2023-24.




18. Derbyniodd ddau archwiliad (14%) sicrwydd 'Cyfyngedig' yn ystod y flwyddyn, o gymharu â thri (17%) yn 2022-23. Yn unol â'n protocol, rydym yn ail-ymweld â'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd mewn adroddiadau gyda sicrwydd 'Cyfyngedig', pan fydd eu hangen, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â nhw'n effeithiol.

19. Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad 'Dim' sicrwydd ac ni godwyd unrhyw 'faterion/risgiau' 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn.

20. Ble nodwyd 'Materion/Risgiau' gennym, derbyniodd rheolwyr pob un ohonynt. Cafodd y 'Materion/Risgiau' a oedd yn weddill eu monitro drwy ein system olrhain gweithredoedd, 4action a drafodir ymhellach yn yr adran ganlynol.

# Materion/Risgiau a Godwyd

21. Rydym yn defnyddio system olrhain gweithredoedd y Cyngor, 4action, i fonitro'r 'Materion' a 'Risgiau' a godir gennym yn ystod ein gwaith. Rydym wedi datblygu a mireinio ein dangosfwrdd ar 4action, sy'n rhoi darlun amser go iawn o berfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n caniatáu i ni olrhain ac adrodd ar y wybodaeth hon yn effeithiol. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus ac felly rydym yn gallu cael diweddariadau gan reolwyr ynglŷn â chynnydd wrth fynd i'r afael â nhw.

22. Yn ogystal â hyn, gyda lefel cynhyrchiol o 72%, mae gennym oddeutu 700 diwrnod o adnodd archwilio ar gael er mwyn cwblhau'r gweithgarwch archwilio mewnol sy'n weddill, i ddarparu'r barn sicrwydd blynyddol.

23. Mae'r graffiau canlynol yn dangos y camau sy'n weddill fel y nodir ar 31 Mawrth 2024.


24. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion/risgiau (coch) 'Critigol' yn ystod y flwyddyn, ac nid oes materion/risgiau (coch) 'Critigol' yn weddill ar hyn o bryd.

## Gweithredoedd Cyfredol a Hwyr


25. Rydym yn monitro pob gweithred ac yn cysylltu â rheolwyr yn eu cylch ar derfyn y cyfnod gweithredu i sicrhau bod rheolwyr wedi rhoi sylw effeithiol iddynt.

26. Ar 31 Mawrth 2024, rydym yn olrhain 39 gweithred hwyr (49 ar 31 Mawrth 2023). O'r rhain, aseswyd pedwar (12 yn 2022-23) fel 'sylweddol' (ambr) a 35 (37 yn 2022-23) yn risgiau 'gymedrol' (melyn), fel y gwelir isod.

### Cyfanswm y Gweithredoedd sy’n Weddill




### Gweithredoedd Hwyr





27. Ar hyn o bryd, dim ond un gweithred sydd wedi’i chwblhau erbyn y dyddiad penodol a nodwyd i reolwyr, ac mae’n ymddangos fel ‘hwyr’, fel y gwelir uchod.

28. Mae’n fater/risg cymedrol. Cafodd ei godi yn ystod archwiliad o ‘Daliadau Dyblyg a Chynnal a Chadw Cyflenwyr’ yn Mai 2021 ac mae’n ymwneud ag adfer nifer fach o daliadau dyblyg a wnaed gan gredydwr sydd wedi’u hadnabod yn ystod yr archwiliad.

29. Rydym wedi cael ein hysbysu fod y Cyfrifydd dan Hyfforddiant yn gweithio drwy’r taliadau dyblyg, ac mae wedi adnabod rhai lle mae ad-daliad eisoes wedi’i adennill drwy nodiadau credyd ar gyfer cyflenwyr a ddefnyddir yn rheolaidd gan y Cyngor.

30. Mae cynnydd yn digwydd gyda’r dyblygiadau sy’n weddill, fodd bynnag, mae problemau staffio yn y tîm taliadau a blaenoriaeth gwasanaethau hanfodol a blaenoriaethau diwedd blwyddyn wedi achosi oediadau i’r gwaith hwn.

## Materion / Risgiau fesul blwyddyn




31. O’r 39 (49 yn 2022-23) o weithredoedd rydym yn eu olrhain, codwyd y rhain rhwng 2019-20 a 2023-24.

32. Er bod y graff uchod yn dangos fod y mwyafrif yn ymwneud â’r flwyddyn ariannol bresennol a’r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae dau mater/risg o 2019-2020 a 2020-2021 nad yw rheolwyr wedi mynd i’r afael â nhw’n llawn eto.


33. Mae'r rhain yn ymwneud â chadarnhau trefniadau mapio sicrwydd y Cyngor, ac adfer nifer fach o daliadau dyblyg a wnaed gan gredydwr (fel y nodir uchod). Mae'r ddau yn 'gymedrol' neu 'felyn' o ran blaenoriaeth risg.

34. Mewn perthynas â'r pwynt cyntaf, mae'r Cyngor wedi diweddaru ei systemau Rheoli Risg, 4Risk. O ganlyniad, mae'r gwaith i lenwi'r map sicrwydd wedi ailddechrau. Tra bod Archwilio Mewnol wedi cwblhau'r gwaith o boblogi'r sicrwydd trydedd llinell, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi bod yn gweithio gyda'r Rheolwyr Buses Gwasanaeth a'r Tîm Perfformio i boblogi'r sicrwydd llinell cyntaf ac ail llinell.

35. Dylid nodi nad oes unrhyw faterion/risgiau 'sylweddol' cyn 2021/22, gyda'r mwyafrif yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol. Mae hyn yn dangos bod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â'r risgiau blaenoriaeth uwch.


## Materion / Risgiau a Godwyd ac y mae angen gweithredu arnynt yn 2023-24

**Materion / risgiau a godwyd yn 2023-24**




36. Yn ystod 2023-24, gwnaethom godi 59 (36 yn 2022-23) 'mater/risg' oedd angen sylw rheolwyr. O'r rhain, gwnaethom raddio naw (chwech yn 2022-23) fel 'sylweddol' (ambr) a 50 (30 yn 2022-23) fel 'cymedrol' (melyn).

**Materion / risgiau a godwyd yr oedd angen gweithredu arnynt yn 2023-24**





37. Roedd angen cwblhau 22 (naw yn 2022-23) o'r gweithredoedd a godwyd yn ystod 2023-24, ac fe ymdriniwyd rheolwyr â 21 (naw yn 2021-22) cyn 31 Mawrth 2024. Mae hyn yn cynrychioli 95% o'r perfformiad yn y maes hwn (100% yn 2022-23).

38. Mae'r weithred nag ymdriniwyd â hi yn llawn cyn diwedd mis Mawrth yn 'gymedrol' (melyn) o ran blaenoriaeth risg, a chafodd ei chrybwyll yn ystod archwiliad ar Reoli Gwastraff Cartref. Mae'n ymwneud ag anghysondebau mewn costau contract ar gyfer gwasanaethau, sydd wedi arwain at y posibilrwydd o ordalu cyflenwr.

39. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd gydag archwilio'r gordaliad, ac mae yn y broses o gysylltu gyda'r cyflenwr i wella trefniadau anfonebu wrth symud ymlaen.

# Ein Perfformiad

40. Wrth gyflawni'r strategaeth archwilio seiliedig ar risg, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg, gyda chymorth y Tîm Arweinyddiaeth, wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:




## Ychwanegu Gwerth

41. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ceisio ychwanegu gwerth lle bynnag y bo'n bosib. Rydym wedi parhau i gefnogi rheolwyr ar draws y Cyngor trwy ddarparu hyfforddiant a chyngor a chaffael adnoddau allanol i ddarparu sicrwydd, megis hyfforddiant ac archwiliadau yn ymwneud â Chronfeydd Answyddogol Ysgolion ac Archwiliad TG.

42. Yn ogystal, rydym wedi parhau i gefnogi cyfoedion yn y rhanbarth, yn genedlaethol ar draws Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, trwy rannu arfer dda a rhaglenni gwaith, ynghyd â meysydd lle mae risgiau'n dod i'r amlwg.

## Mesurau Perfformiad

43. Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau gwelliant parhaus ein gwasanaeth archwilio mewnol.

44. Ym mis Ebrill 2023 cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar nifer o dargedau perfformiad yn y Strategaeth ar gyfer 2022-23, a gellir eu gweld isod.

| Dangosydd Perfformio | Targed 2022-23 | Gwirioneddol 2022-23 | Targed 2023-24 | Gwirioneddol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) | 80% | 82% | 80% | 82% |
| Archwiliadau a gwblhawyd mewn chwe mis | 85% | 89% | 85% | 84% |
| Ymateb cleientiaid yn 'foddhaol' neu well | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Nifer staff (cyfwerth â llawn amser) | 5.0 CALl | 3.0 CALl | 4.0 CALl | 3.3 CALl |
| Yr holl rybuddion rwyll wedi'u derbyn, eu hystyried, a'u dyrannu | Amherthnasol | Amherthnasol | 100% | 100% |
| Canlyniad yr asesiadau mewnol (blynyddol) ac allanol (bob pum mlynedd) o'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwelliannau | Amherthnasol | Amherthnasol | Cydymffurfio ar y cyfan | Cydymffurfio ar y cyfan |

45. Ychwanegwyd dau fesur newydd, yn ymwneud â gwrth-dwyll a chanlyniad y rhaglen sicrhau ansawdd a gwella, yn ystod 2023-24.

46. Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'n targedau, gyda phedwar o'r chwech dangosydd yn cyrraedd eu targed. Yn bwysicaf oll, rydym wedi cyflawni ein targed i adolygu 82% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risg Strategol yn

ddidrafferth, sy’n darparu sicrwydd digonol i ganiatáu’r Pennaeth Archwilio a Risg ddarparu Barn Archwilio Flynyddol.

47. Mae dau faes wedi methu a chyflawni eu lefel perfformio targed; archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis a nifer y staff. Mae dau archwiliad wedi mynd y tu hwnt i’r terfyn amser chwe mis (6.3 mis a 6.8mis) gan fod staff allweddol ar absenoldeb o’r gwasanaeth archwilio. Cafodd y gwaith o gwblhau un archwiliad ei oedi oherwydd oediad (8.0 mis) yn y gwasanaeth oedd yn darparu’r wybodaeth ofynnol ar gyfer yr archwiliad.


48. Ynghyd â’r secondiad sy’n parhau mewn perthynas â Chyfrifyddiaeth, ymddeolodd Uwch Archwilydd yn ystod y flwyddyn, a gwnaed penderfyniad i beidio a llenwi’r swydd wag a pharhau i ddefnyddio’r gyllideb i gomisiynu arbenigwyr allanol. I’r perwyl hwn, bydd y targed newydd ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu’r staff sydd mewn swyddi ar hyn o bryd.

## Meincnodi

49. Fel arfer rydym yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn 22 aelod Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Fodd bynnag, oherwydd pryderon am y gallu i gymharu’r data, mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi sefydlu gweithgor i adolygu’r mesurau sy’n cael eu peilota ar hyn o bryd, a chafwyd ymrwymiad i ailddechrau’r ymarfer meincnodi o 2024-25.

# Hyfforddi a Datblygu

50. Ar y cyfan, buddsoddodd y gwasanaeth 67 diwrnod / 9% (67 diwrnod / 10% yn 2022-23) mewn hyfforddiant a datblygu yn ystod 2023-24 yn cynnwys y canlynol:




51. Mae pob aelod presennol o’r tîm wedi cymhwyso’n broffesiynol ac mae ganddynt gymysgedd dda o gymwysterau proffesiynol, yn cynnwys CIPFA, CIIA[3], IRRV[4], ACFS ac ACFTech[5]. Mae’r gwasanaeth wedi buddsoddi’n sylweddol i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu’n broffesiynol a’u bod yn ymwybodol o’r risgiau a’r datblygiadau sy’n dod i’r amlwg yn y sector. Ar hyn o bryd, rydym yn cefnogi’r Uwch Archwilydd gyda’i astudiaethau ar gyfer cymhwyster proffesiynol y Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol.

52. Yn ogystal, rydym wedi cymryd rhan ym mhob hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle’r oedd hynny’n ofynnol.

[3] Mae CIIA (Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol) yn gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
[4] Yr IRRV (Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw) yw’r corff proffesiynol ar gyfer trethi lleol, budd-daliadau a phrisio.
[5] Mae’r ACFS a’r ACFTech yn gymwysterau atal twyll sy’n cael eu darparu gan y Bwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll.

# Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

## Asesiad Allanol (Safon 1312)

53. Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid i wasanaethau archwilio mewnol dderbyn asesiad allanol unwaith bob pum mlynedd, ac mae'n rhaid iddo gael ei gynnal gan asesydd neu dîm asesu cymwys ac annibynnol o du allan i'r sefydliad.

54. Cwblhawyd asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn eleni drwy adolygiad gan gymheiriad, sef Cyngor Sir Y Fflint.

55. Cadarnhaodd yr asesiad, a gwblhawyd ym mis Mai 2023, "Wedi i Gyngor Sir y Fflint ddilysu'r hunanasesiad, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' â'r gofynion. 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yw'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol – Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â'r safonau ym mhob maes arwyddocaol ac mae'n gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol."

## Asesiad Mewnol (Safon 1311)

56. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus hefyd yn gofyn i wasanaethau archwilio mewnol gwblhau asesiadau cyfnodol i werthuso cydymffurfiaeth barhaus gyda'r Safonau a'r Cod Moeseg.

57. Cwblheir yr hunan-asesiad yn flynyddol ac mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella. (Cyfeirir at hyn yn Atodiad D.)

# Datganiad o Annibyniaeth (Safon 1110)

58. Yn unol â Safon 1110, mae'n rhaid i'r prif swyddog archwilio gadarnhau, o leiaf unwaith y flwyddyn, annibyniaeth y gweithgarwch archwilio mewnol.

59. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn diffinio sut y caiff annibyniaeth archwilio mewnol ei sefydlu a'i gynnal. Mae'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried yn fwyaf diweddar ar 18 Ebrill 2024.

60. Yn unol â hynny, nid yw'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cymryd unrhyw ran yn y gwaith o gynnal ac adrodd ar archwiliadau mewn meysydd lle mae gwrthdaro'n bodoli, yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol.

# Heriau a chyfleoedd wrth symud ymlaen

61. Rydym yn parhau i chwarae rôl allweddol o ran helpu'r Cyngor i sicrhau bod ei risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli'n briodol. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith wrth archwilio effeithiolrwydd rheolydidon y Cyngor o ran rheoli ei risgiau.

62. Fodd bynnag, mae gofynion sicrwydd yn hyblyg ac yn newid yn barhaus, sy'n golygu bod yn rhaid i archwilio mewnol fod ar flaen y newidiadau hyn er mwyn gallu bod yn berthnasol a darparu sicrwydd ar gyfer meysydd megis newid hinsawdd, seiberddiogelwch a risgiau ariannol sy'n newid yn barhaus.

63. Mae arddangos stiwardiaeth dros arian cyhoeddus, adeiladu a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y penderfyniadau a wneir a chyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ddisgwyliadau sylfaenol i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gall archwilio mewnol gyfrannu at y we gymhleth hon o ddisgwyliadau, rhwymedigaethau, uchelgeisiau a heriau trwy ddarparu cymorth mewn ffordd unigryw ac annibynnol.

64. Mae cyflawni hyn yn gofyn am archwilwyr mewnol sydd wedi eu hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi gan ddulliau modern a safonau proffesiynol. Mae'n gofyn am gapasiti a galluogrwydd.

65. Mae cyflawni hyn yn gofyn am archwilwyr mewnol sydd wedi eu hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi gan ddulliau modern a safonau proffesiynol. Mae'n gofyn am gapasiti a galluogrwydd. Mae swyddi gwag hefyd wedi creu her o ran sicrhau bod archwilwyr sydd â digon o brofiad ar gael i gwblhau gwaith mwy cymhleth, yn ogystal â hyfforddi a chefnogi aelodau newydd o staff.

66. Fodd bynnag, mae tîm brwdfrydig ac ymroddedig yn golygu bod y gwasanaeth archwilio mewnol mewn sefyllfa dda i sicrhau y gall gyflawni ei strategaeth a pharhau i gefnogi'r Cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu.

# Atodiad A: Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd 2023-24

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Dim Risgiau/Materion sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.** |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu fesurau rheoli ond nid oes unrhyw risgiau o ran cyflawni amcanion. Gall Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.** |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA.** |
| Dim Sicrwydd | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol **yn sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau / a neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai y bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith.** |

# Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Llinell) – Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 2023-24

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM1 | Risg bod y gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol | 5:5<br>25 | 4:5<br>20 | 14/05/19<br>12/01/22 | | Gwytnwch Ariannol (Ebrill 2020) | | | Gwytnwch Ariannol (Tachwedd 2022) | |
| YM2 | Risg bod y Cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas | 4:5<br>20 | 4:4<br>16 | 20/06/18<br>12/01/22 | Recriwtio a Chadw (Mawrth 2019) | | | | Recriwtio a Chadw (Mehefin 2022) | |
| YM3 | Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau | 5:5<br>25 | 4:4<br>16 | 21/06/18<br>10/09/18<br>12/01/22 | Archwiliad TG - seiberddiogelwch (Chwefror 2019) | Archwiliad TG – Gwytnwch TG (Ebrill 2020) | Archwiliad TG – Gwytnwch TG (Dilyn i Fyny) (Mai 2021) | Archwiliad TG – Rheoli Trwyddedau Meddalwedd (Ionawr 2022) | Archwiliad TG – Cyfrifiadura yn y Cwmwl (Mawrth 2023) | Rheoli Cyflenwr TG (Mawrth 2024) Adroddiad Drafft |
| | | | | | | | Archwiliad TG – Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Ebrill 2021) | | Archwiliad TG – Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyn i Fyny) (Medi 2022) | Rheoli Mynediad Corfforaethol (Risgiau Allweddol) (Mawrth 2024) |
| | | | | | | | | | Rheoli Gwendidau TG (Medi 2022) | |
| | | | | | | | | | Rheoli Gwendidau TG | |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | (Dilyn i Fyny) (Ionawr 2023) | |
| YM5 | Y risg o fethu a gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r system addysg a bodloni'r heriau addysgol yn y dyfodol | 4:5<br>20 | 4:4<br>16 | 20/06/18<br>12/01/22 | | | | | | Rhaglen Moderneiddio Cymunedau sy'n Dysgu (Awst 2023) |
| YM7 | Risg nad yw'r Cyngor yn ddigon gwydn i allu darparu gwasanaethau yng ngoleuni newidiadau allanol | 4:4<br>16 | 3:4<br>12 | 20/06/18<br>12/01/22 | | Rheoli Risgiau Brexit (Ionawr 2020)<br>Parhad Busnes (Chwefror 2020) | Adolygu'r Ymateb i'r Argyfwng COVID-19 (Ebrill 2020) | Sicrwydd Rheoli Argyfwng COVID-19 (Mai 2021) | | Gwydnwch Sefydliadol (Tachwedd 2023) |
| YM9 | Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau | 4:5<br>20 | 4:5<br>20 | 12/01/22 | | | | | Trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu tai addas (Mehefin 2022) | |
| YM10 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain at neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 5:4<br>20 | 4:2<br>8 | 20/06/18<br>12/01/22 | Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Mehefin 2018) | | Panel Rhiantu Corfforaethol (Ionawr 2021) | | Archwiliad wedi cychwyn ym Mawrth 2023 a bydd yn parhau yn 2023-24 | Rheoli Risg Strategol – Diogelu (YM10) (Ionawr 2024) |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Dyddiad Creu | Blwyddyn Archwilio 2018/19 | Blwyddyn Archwilio 2019/20 | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM11 | Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor | 4:5 20 | 4:5 20 | 18/08/20 12/01/22 | Diwygio Lles (Ebrill 2019) | | | | Tlodi (Mawrth 2023) | |
| YM13 | Risg bod newid hinsawdd yn effeithio'r Ynys, ac nad yw'r Cyngor yn sefydliad net sero erbyn 2030 | 4:4 16 | 4:3 12 | 12/01/22 | | | | | Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (ZM) (Medi 2022) | |
| YM14 | Risg nad yw asedau ffisegol yr Ynys yn addas i bwrpas, neu na fyddant yn diwallu anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr y dyfodol | 5:5 25 | 4:4 16 | 12/01/22 | | | | Buddsoddi mewn Asedau (Tachwedd 2021) | | Rheoli Ased (WIP) |
| YM16 | Risg nad yw'r Cyngor yn gallu rheoli newid yn effeithiol sy'n cyfyngu ei allu i foderneiddio a darparu gwasanaethau cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon | 4:5 20 | 3:4 12 | 11/07/23 02/01/24 | | | | | | |

Tudalen 63

# Atodiad C: Sicrwydd Trydedd Llinell – Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2023-24

| Teitl yr Archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|---|
| Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (ail ddilyniad) | Mai 2023 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Cardiau Tanwydd | Mehefin 2023 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 6 |
| Rheoli Trwydded Meddalwedd TG (dilyniad cyntaf) | Mehefin 2023 | **Rhesymol** | 0 | 1 | 1 |
| Cronfa Adfywio Gogledd Ynys Môn (Archwiliad) | Awst 2023 | **Amherthnasol** | **Amherth nasol** | **Amherth nasol** | **Amherth nasol** |
| Y Dreth Gyngor, NNDR ac Adfer Mân Ddyledion | Medi 2023 | **Cyfyngedig** | 0 | 3 | 5 |
| Rheoli'r Risg o Dwyll mewn Tenantiaeth Tai | Medi 2023 | **Rhesymol** | 0 | 1 | 4 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Medi 2023 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 2 |
| Gordaliad ar gyfer Contract Torri Gwair (Archwiliad) | Tachwedd 2023 | **Amherthnasol** | **Amherth nasol** | **Amherth nasol** | **Amherth nasol** |
| Pensiynau Athrawon (dilyniad cyntaf) | Tachwedd 2023 | **Rhesymol** | 0 | 1 | 1 |
| Dechreuwyr y Gyflogres | Ionawr 2024 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 4 |
| Rheoli Gwastraff Tai (Archwiliad) | Ionawr 2024 | **n/a** | 0 | 0 | 1 |
| Gwiriad Iechyd Rheolaeth Risg (Zurich) | Ionawr 2024 | **n/a** | 0 | 0 | 0 |
| Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth) (dilyniad cyntaf) | Mawrth 2024 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 1 |
| Y Dreth Gyngor, NNDR ac Adfer Mân Ddyledion (dilyniad cyntaf) | Mawrth 2024 | **Cyfyngedig** | 0 | 3 | 4 |
| | | **14** | **0** | **9** | **29** |

Tudalen 64

# Atodiad D: Cynllun Gweithredu Hunan-asesiad Blynyddol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)

| Rhif | Safonau PSIAS ac IPPF | Maes Gwella | Swyddog Atebol | Diweddariad ar Gynnydd – 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| 1. | 1311 – Asesiadau Mewnol | Mae Safon 1311 PSIAS yn gofyn am gwblhau asesiadau mewnol fel rhan o'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella, fydd yn cynnwys:<br><br>• Parhau i fonitro perfformiad y gweithgarwch mewnol.<br>• Hunan-asesiad neu asesiadau cyfnodol gan bersonau eraill o fewn y sefydliad gyda gwybodaeth ddigonol am arferion archwilio mewnol.<br><br>Er bod gwaith yn mynd rhagddo i fonitro perfformiad gweithgarwch archwilio mewnol, dylid cwblhau hunan-asesiad cyfnodol gan ddefnyddio templed hunan-asesu PSIAS. Dylid adrodd ar ganlyniadau'r hunan-asesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ogystal ag unrhyw gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd sydd wedi'u nodi ar gyfer gwelliannau. | **Pennaeth Archwilio a Risg** | **Wedi mynd i'r afael ag o**<br><br>Cwblhawyd ymarferiad hunan-asesu yn ystod 2023-24 gan ddefnyddio templed hunanasesu PSIAS. Mae'r canlyniadau a'r meysydd gwella yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio fel rhan o'r adroddiad hwn. |
| 2. | 1000 – Diben, Awdurdod a Chyfrifoldeb | Mae'r templed hunan-asesu PSIAS yn cadarnhau'r gofyniad i'r Siarter Archwilio Mewnol ddiffinio'r term 'Bwrdd', gan nodi "disgwylir y bydd y pwyllgor archwilio yn cyflawni rôl y bwrdd yn y mwyafrif o achosion".<br><br>Er bod gan y Pennaeth Archwilio a Risg linell adrodd gweithredol gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'r Siarter Archwilio Mewnol cyfredol yn diffinio 'Bwrdd' fel y 'Pwyllgor Gwaith'. Felly, mae angen diweddaru'r Siarter Archwilio Mewnol i adlewyrchu'r llinell adrodd gweithredol gyda'r 'Bwrdd' h.y., y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | **Pennaeth Archwilio a Risg** | **Wedi mynd i'r afael ag o**<br><br>Mae'r Siarter Archwilio Mewnol wedi cael ei diweddaru i ddiffinio'r 'Bwrdd' fel y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cafodd hyn ei gymerdawyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024. |
| 3. | 1111 – Gweithio'n Uniongyrchol gyda'r Bwrdd | Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn crybwyll cynnal cyfarfod preifat blynyddol rhwng y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fodd bynnag, nid yw'r sesiynau preifat hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.<br><br>Er nad yw hyn yn ofyniad o fewn y PSIAS, ac na chyfeirir ato yn y LGAN, mae'r Canllaw Gweithredu IPPF ar gyfer Safon 1111 yn awgrymu bod cyfarfod preifat blynyddol yn cael ei gynnal rhwng y Pwyllgor Llywodraethu a'r Prif Swyddog Archwilio Gweithredol heb unrhyw Uwch Reolwr yn bresennol. Bydd hyn yn gyfle i drafod materion neu broblemau sensitif sy'n wynebu swyddogaeth archwilio mewnol neu'r sefydliad. Mewn trafodaethau gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'r broses asesu allanol, amlygwyd yr awydd i gynnal cyfarfod preifat blynyddol. | **Pennaeth Archwilio a Risg** | **Wedi mynd i'r afael ag o**<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod preifat rhwng archwilio mewnol ac allanol, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, heb swyddogion yn bresennol, ar 18 Ebrill 2024. Cytunwyd i drafod y ddarpariaeth ar gyfer cynnal y cyfarfod hwn yn flynyddol. |

Tudalen 65

| Rhif | Safonau PSIAS ac IPPF | Maes Gwella | Swyddog Atebol | Diweddariad ar Gynnydd – 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| 4. | 1110 – Annibyniaeth Sefydliadol | Mae Safon 1110 y PSIAS yn gofyn i'r CAE gadarnhau annibyniaeth sefydliad y gweithgarwch archwilio mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Bwrdd.<br><br>Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn ddiffinio sut mae annibyniaeth archwilio mewnol yn cael ei sefydlu a'i gynnal, ond mae hefyd gofyniad i'r CAE gadarnhau annibyniaeth sefydliadol gyda'r bwrdd, o leiaf unwaith y flwyddyn. Er nad yw'r PSIAS a'r LGAN yn nodi y dylid cadarnhau hyn yn benodol yn yr adroddiad archwilio mewnol blynyddol, byddai hyn yn arfer da ac yn cyd-fynd â'r ffordd mae awdurdodau lleol eraill yn darparu cadarnhau o'r hannibyniaeth sefydliadol. | **Pennaeth Archwilio a Risg** | **Wedi mynd i'r afael ag o**<br><br>Datganiad o Annibyniaeth wedi'i gynnwys yn Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 a 2023-24. |
| 5. | 2050 – Cydlyniad a Gwydnwch | Mae Safon 2050 PSIAS yn cadarnhau'r gofyniad i'r cynllun seiliedig ar risg gynnwys dull a ddatblygwyd yn briodol ar gyfer defnyddio adnoddau sicrwydd eraill, ac unrhyw waith a all fod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hynny'n wydn.<br><br>Er bod prosesau cyfredol ar gyfer datblygu'r cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg yn cydymffurfio gyda PSIAS, byddai cwblhau map sicrwydd yn sicrhau bod unrhyw fylchau sicrwydd neu unrhyw feysydd o or-sicrwydd yn cael eu hamlygu.<br><br>Mae map sicrwydd yn cael ei ddatblygu. Mae Archwilio Mewnol wedi poblogi'r sicrwydd trydedd llinell, ac mae'r map sicrwydd yn nwylo'r Tîm Perfformio ar hyn o bryd er mwyn pobli'r sicrwydd llinell cyntaf a sicrwydd ail llinell. | **Pennaeth Archwilio a Risg / Rheolwr Risg ac Yswiriant / Rheolwyr Busnes Gwasanaeth** | **Ar waith**<br><br>Mae'r diweddariad diweddar ar y system 4Risk wedi'i gwblhau. Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi cwrdd â'r Rheolwyr Busnes i ddarparu cyngor ar ychwanegu yswiriannau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ychwanegu / ymgorffori sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell. Mae archwilio Mewnol yn monitro hyn ar hyn o bryd. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 27 Mehefin 2024 / 26 Medi 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-24 – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor adrodd i'r cyngor llawn ('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu') yn flynyddol ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol. (3.4.8.3.1)<br><br>Mae'n ofynnol hefyd i'r Pwyllgor adrodd ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran cyflawni ei ddiben a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno, gan gynnwys casgliad ar gydymffurfiaeth â Datganiad Sefyllfa Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) [1]. (3.4.8.3.2)<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hyn ac mae'n allbwn allweddol i'r Pwyllgor. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pwrpasol ac effeithiol yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref a rhoi sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol ac uniondeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu. Mae hefyd yn allweddol i gefnogi archwilio mewnol ac allanol effeithiol.

1.2. Mae canllawiau CIPFA sy'n ategu ei Ddatganiad Sefyllfa yn nodi y dylai'r Pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei ddiben ac yn gallu dangos ei effaith. Dylai'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd, gan gefnogi atebolrwydd yr awdurdod i randdeiliaid ehangach, gan gynnwys y cyhoedd.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023-24 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 26 Medi 2024.

---

[1] Mae Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) yn nodi barn CIPFA am rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-24

Mehefin 2024






## Adroddiad y Cadeirydd

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys


Cyflwyniad 1
Cyfansoddiad a threfniadau 2
Trefniadau atebolrwydd 3
Llywodraethiant 4
Rheoli Trysorlys 4
Gwerth am arian 5
Fframwaith sicrwydd 6
Atal twyll a llygredd 8
Archwilio Mewnol 9
Archwilio Allanol 11
Adroddiadau Ariannol 12
Delio â chwynion 12
Adroddiad hunanasesiad 13
Asesiad perfformiad panel 13
Archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol 14
Atodiad A – Amlder cyfarfodydd a phresenoldeb 15
Atodiad B – Hyfforddiant Aelodau 2022-24 16
Atodiad C – Crynodeb o Ganlyniad y Cyfarfod 18


# Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn (3.4.8.1.1).

2. Ei bwrpas yw rhoi sicrwydd annibynnol llawn i'r Cyngor ("*y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant*") ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, sefyllfa rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu (3.4.8.1.2).

3. Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) [1] yn datgan y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith 'i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant', rhoi sicrwydd ei fod yn cyflawni ei bwrpas, wedi cyflawni ei gyfrifoldebau ac yn gallu dangos ei effaith.

4. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwn drwy asesu gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2023-24 yn erbyn ei gylch gorchwyl, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad[2],y Cyngor, fersiwn 2.85 a ddiweddarwyd ar 1 Chwefror 2024.

[1]Mae Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA o rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.
[2] Mae rhannau perthnasol y Cyfansoddiad mewn cromfachau.

# Cyfansoddiad a threfniadau

5. Yn unol â'i gylch gorchwyl, yn ystod y flwyddyn roedd y Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg. Gadawodd y Cynghorydd Dafydd Roberts y Pwyllgor i ymuno â'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2023 ac yn ei le cafodd y Cynghorydd Ieuan Williams ei benodi. Hefyd ym mis Mehefin 2023, ymunodd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes â'r Pwyllgor i lenwi sedd oedd gynt yn wag (3.4.8.2.2).

6. Mae angen i'r Aelod Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor (3.4.8.2.2) a mynychodd chwech o'r wyth cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod 2023-24 (Atodiad A).

7. Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod lleyg ac felly nid oedd yn gynghorydd etholedig nac yn aelod o grŵp a oedd yn rhan o Bwyllgor Gwaith y Cyngor (3.4.8.2.3).

8. Trwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor ei fusnes yn anwleidyddol a chadwyd at reolau cydbwysedd gwleidyddol (3.4.8.2.1). Bu i bob aelod ddatgan buddiannau lle oedd hynny'n briodol (3.4.8.2.2).

9. Yn ystod y flwyddyn, pan alwyd ar swyddogion i fynychu cyfarfod pwyllgor ar gais aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gwnaethant hynny i gyd. (3.4.8.2.4).

10. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (3.4.8.2.5). Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol (cyfarfodydd hybrid) ar saith achlysur, a oedd yn cynnwys dau gyfarfod arbennig i ethol y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ac i ystyried Datganiad Cyfrifon drafft 2022-23 yn unig, Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022-23 ac adroddiad Archwilio Allanol ar ei gynllun archwilio manwl ar gyfer 2022-23. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2023-24 wedi bod yn dda (Atodiad A).

11. Lle bo angen, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi darparu cyngor, ac y mae wedi cael mynediad uniongyrchol a dilyffethair i'r Pwyllgor (3.4.8.2.6).

12. Ni fu'n rhaid i'r archwilwyr allanol na mewnol ofyn i'r Cadeirydd ystyried unrhyw fater y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor ym marn yr archwilwyr (3.4.8.2.8).

13. Derbyniodd aelodau presennol hyfforddiant parhaus (Atodiad B), a lle bo angen cawsant eu briffio ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol, ac ymchwil (3.4.8.2.9).

14. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys holl swyddogaethau craidd y Pwyllgor. Fodd bynnag, amlygodd adolygiad CIPFA o gylch gorchwyl y Pwyllgor yn erbyn y cylch gorchwyl a awgrymir yn ei ganllawiau fod cyfeiriadau penodol at fwyafrif y meysydd disgwyliedig a chyfeiriadau ymhlyg at y rhan fwyaf o'r meysydd sy'n weddill. Roedd ychydig o fanylion ar goll (mewn perthynas â'r cyfrifon) ac mewn rhai achosion eraill gall manylion ychwanegol ynghylch gweithgareddau risg gyfyngu ar gwmpas gwaith y pwyllgor os cânt eu gweithredu'n llythrennol. Roedd rhai cymalau yn gorgyffwrdd â'i gilydd, a gallai hynny arwain at ddryswch. Nododd CIPFA hefyd chwe adroddiad blynyddol a ddaeth gerbron y Pwyllgor nad oeddent wedi'u cynnwys yn benodol ar y cylch gorchwyl. Yn unol â hynny, paratowyd cylch gorchwyl diwygiedig i'w ystyried gan y Pwyllgor ym mis Mehefin 2024.

# Trefniadau atebolrwydd

15. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adrodd i'r Cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant')* ac mae ei rôl yn gwbl ar wahân i rôl y pwyllgorau sgriwtini. Mae rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gofyn am sicrwydd bod systemau rheoli mewnol y Cyngor yn gweithio, a bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau. (3.4.8.1.3).

16. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn ('i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant') ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor, ei drefniadau adrodd ariannol, a'i swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol (3.4.8.3.1). Y mae hefyd yn bodloni'r gofyniad i adrodd ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran cyflawni'i bwrpas a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.

17. Comisiynwyd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i hwyluso hunanasesiad ansoddol o'r Pwyllgor yn 2023-24. Roedd hyn yn bodloni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 sy'n argymell bod pwyllgorau archwilio yn gwerthuso eu heffaith ac yn nodi meysydd i'w gwella.

18. Roedd yr adolygiad yn cynnwys adborth ar berfformiad y Pwyllgor gyda'r rheini sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith, yn cynnwys uwch reolwyr, i werthuso p'un ai a ydi'r Pwyllgor yn ychwanegu gwerth i'r sefydliad.

19. Adroddwyd canlyniad yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024, a chymeradwywyd y camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r 10 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor. Bydd y cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor ym mhob cyfarfod wrth symud ymlaen (3.4.8.3.2).

20. Bu i'r Pwyllgor ystyried ei fusnes yn gyhoeddus, ac eithrio, lle bo'n briodol, pan gyfarfu'n breifat i ystyried eitemau o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[3].

21. Yn ystod 2023-24, ystyriodd y Pwyllgor un eitem yn breifat:

    - Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol 2023-24 (Chwefror ac Ebrill 2024)

22. Cyflwynwyd y Profion Budd y Cyhoedd priodol i'r Pwyllgor a chawsant eu derbyn ganddo.

23. Cyhoeddwyd agendâu ac adroddiadau yn unol ag amserlenni statudol ac roeddent ar gael i'w harchwilio (3.4.8.3.3).

24. Yn ystod y flwyddyn, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion allweddol i'r tîm arweinyddiaeth lle bo'n briodol, megis cais iddo adolygu hyfforddiant gwasanaethau cwsmeriaid ar gyfer staff sy'n wynebu'r cyhoedd, mewn ymateb i Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2022-23, ym mis Medi 2023.

25. Ni chafodd unrhyw faterion eu huwchgyfeirio i unrhyw bwyllgor arall yn ystod y flwyddyn.

[3] Eitemau o dan Atodlen 12A, paragraff 14: Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n cadw'r wybodaeth honno) a Pharagraff 18: Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gamau a gymerir neu sydd i'w cymryd mewn cysylltiad ag atal, ymchwilio neu erlyn troseddau.

# Llywodraethiant

26. Adolygodd ac asesodd y Pwyllgor drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn ystod ei adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) drafft, a drafodwyd ganddo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 (3.4.8.4.2). Roedd y drafodaeth yn ymdrin â sawl ffactor gan gynnwys diffiniadau asesu a'r hyn y mae'r rhain yn ei olygu o ran gallu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, gwelliannau posibl i'r fframwaith cerdyn sgorio corfforaethol a goruchwylio a chraffu ar gyflawni prosiectau Cyfalaf y Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r DLIB drafft a fyddai'n ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2022-23.

27. Derbyniodd y Pwyllgor y fersiwn derfynol o'r DLIB ym mis Rhagfyr 2023 a phenderfynodd ei gymeradwyo ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 ac i gyfeirio'r Datganiad at y Cyngor llawn i'w gymeradwyo ac at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr am eu llofnodion. (3.4.8.6.2).

28. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol iddo adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu gydweithredu sylweddol (3.4.8.4.6) ac adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth (3.4.8.8.1).

29. Nid oedd adroddiad am bartneriaethau o bwys ar gael yn ystod 2023-24. Gan and oedd adroddiad blynyddol ar gael gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, cytunodd Archwilio Mewnol i wneud darn o waith i roi'r sicrwydd hwn i'r Pwyllgor yn ystod 2023-24. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r archwiliad hwn ar y gweill.

# Rheoli Trysorlys

30. Mae'r Cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys yn destun craffu effeithiol (3.4.8.5.1). Felly, mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â rôl craffu yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, cyn eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn (3.4.8.5.2).

31. Adolygodd y Pwyllgor Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2022-23 yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023, a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ac a amlygodd berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor.

32. Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor bwyntiau gan gynnwys gwariant cyfalaf a'r tanwariant ar y gyllideb gyfalaf, adroddwyd ar gynnydd prosiectau cyfalaf a chymhlethdod gofynion adrodd ariannol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddealltwriaeth y cyhoedd o sut mae'r Cyngor yn gwario ei arian. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a'i anfon ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach (3.4.8.5.1/2/3/4).

33. Trafododd y Pwyllgor yr adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau a sefyllfa rheoli'r trysorlys yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024. Yn dilyn trafodaethau ynghylch newidiadau i strategaeth fuddsoddi'r Cyngor ar gyfer benthyg a benthyca rhwng awdurdodau lleol ac aildrefnu dyledion, penderfynodd y Pwyllgor nodi a derbyn yr adolygiad canol blwyddyn heb unrhyw sylwadau pellach. (3.4.8.5.1/2/3/4).

34. Trafododd y Pwyllgor Ddatganiad o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25 yn ystod yr un cyfarfod. Roedd y ddogfen yn ymgorffori'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol a Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys (3.8.4.5.1/4).

35. Yn dilyn trafodaethau ynghylch effaith digwyddiadau annisgwyl ar gyllid y Cyngor fel Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) mewn ysgolion, y gostyngiad yng nghyfanswm buddsoddiad o £10m rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2023 ac effaith y cynnydd mewn benthyciadau cyfalaf ar gyllideb refeniw'r Cyngor, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25 a'i hanfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach.

# Gwerth am arian

36. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau cadarn i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwerth gorau am arian (3.4.8.6.1).

37. Adolygodd ddull cyffredinol y Cyngor o roi gwerth am arian wrth adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y Cyngor (3.4.8.6.2) yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. 2023.

38. Bu'r Pwyllgor yn ystyried Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 Archwilio Cymru, a sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwerth am arian (3.4.8.6.3) yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024. Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor fod Archwilio Cymru wedi cwblhau gwaith yn ystod 2022-23 i fodloni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i weld a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, roedd Archwilio Cymru wedi cwblhau prosiectau penodol, gan ddibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg).

39. Wrth asesu pa un ai a ydi'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian, cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei waith ar ddatganiadau ariannol 2021-22, sy'n nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

40. Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod, ac â gwybodaeth yr Archwilydd am yr Awdurdod.

41. O ran sut mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad, tynnwyd sylw gan yr Archwilydd Cyffredinol at wendidau yn y broses o'i chyflwyno i uwch arweinwyr fel eu bod yn gallu deall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor.

42. Penderfynodd y Pwyllgor nodi Crynodeb Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2023 a'r asesiad ynglŷn â pha un ai a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian.



# Fframwaith sicrwydd

43. Mae cael trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor yn galluogi'r Pwyllgor i gymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Mae hefyd yn helpu i sicrhau eglurder ynghylch pa sicrwydd a roddir, a bod cyfrifoldeb clir dros ddarparu sicrwydd a hynny heb ddyblygu gwaith. (3.4.8.7.1/2).

44. Yn ogystal â sicrwydd ynghylch rheoli risg, archwilio mewnol ac allanol, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd cyntaf ac ail linell, fel a ganlyn. (3.4.8.7.1).

45. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Rheolwr Newid Hinsawdd a'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023, yn amlinellu'r cynnydd tuag at gyflawni targed sero net y Cyngor, yn dilyn adroddiadau cynharach gan Archwilio Cymru a Zurich Risk Engineering ar ddull gweithredu newid yn yr hinsawdd yn y sector cyhoeddus ac o fewn y Cyngor.

46. Cafwyd trafodaeth ynghylch defnydd ystyrlon o ddata allyriadau carbon yn ymwneud ag adeiladau fel ysgolion, effaith mesurau ynni-effeithlon e.e. paneli solar ar y defnydd o ynni a sut i fesur effeithiolrwydd adeiladau 'sero-net' newydd.

47. Wrth nodi'r sicrwydd a ddarparwyd, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad blynyddol ar gynnydd tuag at sero-net fel y gellir dangos i aelodau effeithiau cadarnhaol y buddsoddiadau a'r datblygiadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw.

48. Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2022-23, a oedd yn amlinellu trefniadau yswiriant y Cyngor a cholledion diweddar ar gyfer y prif feysydd risg a yswiriwyd, hefyd ym mis Mehefin 2023. Yn dilyn trafodaethau ynghylch tueddiadau hawliadau a chymhlethdod yn ogystal â threfniadau contract gydag yswiriwr y Cyngor, Zurich Municipal, penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

49. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynghylch y materion llywodraethu gwybodaeth allweddol mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn am y cyfnod rhwng Chwefror 2023 a Thachwedd 2023, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y trefniadau sydd ar waith i fonitro mabwysiadu a dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth â pholisïau diogelu data allweddol pob ysgol.

50. Holodd Aelodau'r Pwyllgor ynghylch eu rolau fel llywodraethwyr ysgol wrth ofyn cwestiynau i ysgolion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a thystiolaeth o hyn, yn ogystal â ph’un ai a oedd rhai o'r dyddiadau allweddol i ysgolion weithredu tasgau yn y Strategaeth Diogelu Data Ysgolion yn bosibl. Yn dilyn sicrwydd ynghylch y materion a drafodwyd, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion i alluogi ysgolion i weithredu'n llawn yn unol â gofynion diogelu data.

51. Cafodd Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) 2022-23 ei ystyried gan y Pwyllgor ym mis Chwefror 2024 a darparodd ddatganiad a throsolwg y SIRO o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cyfreithiol a chodau ymarfer perthnasol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol. Yn dilyn trafodaethau ar berfformiad ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, trefniadau ar gyfer ymateb i geisiadau am luniau CCTV a'r defnydd sy'n dod i'r amlwg o dechnoleg drôn, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

52. Trafododd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar ganlyniad Ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) i'r Digwyddiad Seiber yn 2021 yn Ysgolion Uwchradd y Cyngor, yn yr un cyfarfod.

53. Trafododd y Pwyllgor nifer o faterion, gan gynnwys hyfforddiant diogelu data mewn ysgolion, diweddariadau diogelwch ar gyfer systemau TG mewn ysgolion, amserlenni rhwng rhoi gwybod am ddigwyddiad i'r SCG a derbyn canlyniad eu gwaith, yn ogystal ag archwilio gwendidau TG a darnau a osodir i drwsio meddalwedd. Penderfynodd dderbyn yr adroddiad a nodi'r camau gweithredu a nodwyd ac a gwblhawyd yn dilyn y digwyddiad i fynd i'r afael â'r gwendidau technegol a llywodraethu gwybodaeth a nodwyd (3.4.8.13.1).

54. Hefyd derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol 2022-23 y Prif Swyddog Iechyd a Diogelwch. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar faterion fel tueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn digwyddiadau a adroddwyd hyd yma yn 2023-24, cymharu â data cyn Covid ar gyfer digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt ac y gellir adrodd amdanynt, i ba raddau mae data ar gael am achosion o lithro a baglu o fewn cartrefi gofal preswyl sy’n cael eu cynnal gan yr Awdurdod ac unrhyw gydberthynas rhwng cynnydd mewn digwyddiadau iechyd a diogelwch a hawliadau yswiriant yn erbyn y Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyodd yr argymhelliad y dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

55. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Seiberddiogelwch TGCh Blynyddol 2023-24, ym mis Chwefror ac eto ym mis Ebrill 2024 (gan fod rhai aelodau wedi cael trafferth cyrchu’r adroddiad ym mis Chwefror). Roedd yr adroddiad yn nodi'r bygythiadau seiber cyffredin sy'n wynebu'r Cyngor ac yn amlinellu'r camau lliniaru a gweithredu a oedd ar waith i ganfod ac atal gweithgarwch maleisus.

56. Trafododd y Pwyllgor welliannau y gellid eu gwneud yn y dyfodol i'r adroddiad presennol e.e. cynnwys unrhyw achosion a lwyddodd i ymosod ar ddulliau’r Cyngor i sicrhau diogelwch seiber a sut yr ymdriniwyd â'r rhain, rôl perchnogion meddalwedd o ran darparu dulliau rybuddio seiber a goblygiadau datblygiad Deallusrwydd Artiffisial. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

# Rheoli risg

57. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rheolaeth risg yn y Cyngor (3.4.8.8.1) yn ystod y flwyddyn.

58. Diweddarwyd y Pwyllgor ynghylch Cofrestr Risg Strategol y Cyngor, a adolygwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau ei bod yn adlewyrchu amgylchedd risg y Cyngor gan ystyried Cynllun newydd y Cyngor 2023-28 a'i amcanion strategol, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023.

59. Roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar risgiau gweddilliol coch / critigol allweddol penodol yn ogystal â mesurau lliniaru presennol a posibl, gan gynnwys methiant TG a mwy o ddefnydd o wasanaethau'r Cwmwl a chadw cronfeydd wrth gefn ariannol i gryfhau gwytnwch ariannol. Hefyd rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i nifer y risgiau lle mae'r risg gweddilliol ar ôl lliniaru yn parhau i fod yn Goch neu'n Gritigol a dull y Cyngor o reoli hyn.

60. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r gwelliannau a wnaed i'r Gofrestr Risg Strategol a chafwyd sicrwydd bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod ac yn rheoli'r risgiau i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

61. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn cyflwyno canlyniad y Gwiriad Iechyd Rheoli Risg, a gynhaliwyd gan Zurich Resilience Solutions, yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024. Trafododd y Pwyllgor sgôr aeddfedrwydd risg presennol y Cyngor a ffyrdd o wella hyn, gan gynnwys dangos tystiolaeth o ddull cyson o ymdrin â risg ar draws pob maes gwasanaeth a mwy o ystyriaeth o risg wrth wneud penderfyniadau a rheoli prosiectau. Penderfynodd y Pwyllgor gymryd sicrwydd o'r adroddiad fod rheoli risg yn cael ei ddatblygu a'i weithredu'n effeithiol o fewn y Cyngor a chefnogi'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed.

# Atal twyll a llygredd

62. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer 2022-23 (3.4.8.9.4) yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, gan fanylu ar ymdrechion Archwilio Mewnol i liniaru risgiau twyll o fewn y Cyngor. Amlygodd yr adroddiad weithgareddau i fynd i'r afael â thwyll, gan gynnwys treulio 28 diwrnod ar waith gwrth-dwyll, fel y Fenter Twyll Genedlaethol ac ymchwiliadau twyll amrywiol. Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd lleihau risgiau twyll, yn enwedig o dan bwysau ariannol.

63. Fel rhan o'r adroddiad hwn, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg gyfraddau cydymffurfio presennol y Pwyllgor (95%) ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth y staff o'r Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban (3.4.8.9.1).

64. Cafwyd trafodaeth ynghylch codi ymwybyddiaeth o dwyll trwy bolisïau cadarn, y mesurau mewnol presennol i atal twyll rhag digwydd yn ogystal â meysydd risg twyll penodol fel Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac osgoi premiwm Treth y Cyngor ail gartrefi. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

65. Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ynghylch y cynnydd a wnaed i weithredu Strategaeth Gwrth-dwyll 2022-25, a bod Cynllun Gweithredu parhaus yn sicrhau llwyddiant parhaus. Nod asesiad risg arfaethedig ar gyfer twyll ledled y Cyngor yw gwella gallu staff i nodi achosion posibl o dwyll a thargedu adnoddau'n effeithiol.

66. Yn ystod trafodaethau, cododd y Pwyllgor bryderon am atal twyll bob dydd, megis twyll mandad, osgoi talu premiwm ail gartrefi, a thwyll Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae mesurau'n cynnwys gwiriadau diwydrwydd dyladwy, gwirio manylion cyswllt, ac ymgorffori modd o ddilysu manylion adnabod mewn meddalwedd. Mae mesurau atal twyll penodol yn cynnwys gwirio gwybodaeth am ffordd o fyw ar gyfer ail gartrefi a sicrhau defnydd priodol o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

67. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai adolygiadau Archwilio Mewnol, a'r Gweithgor Gwrth-dwyll yn gwella ymwybyddiaeth o dwyll a mesurau ataliol ar draws y Cyngor.

68. Yn yr un cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) 2022-23. Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor ystumiadau ymddangosiadol yng nghanlyniadau'r NFI ar gyfer 'incwm a gollir gan y Cyngor' mewn perthynas â thwyll/gwallau Bathodyn Glas, heriau lefel gwasanaeth sy'n gysylltiedig â pheidio â rhoi gwybod i'r Cyngor am farwolaethau sy'n digwydd y tu allan i'w ffin a goblygiadau twyll o ran rhyddhad Treth y Cyngor a pheidio â chasglu cyllid y Cyngor. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan yr adroddiad. (3.4.8.9.3)



# Archwilio Mewnol

69. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor (3.4.8.10.1). Trwy adolygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol, yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol a'r Siarter Archwilio Mewnol, a diweddariadau rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio a Risg, mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb yr adran archwilio mewnol, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo'r defnydd effeithiol a wneir o archwiliadau mewnol o fewn fframwaith sicrwydd y Cyngor (3.4.8.10.2).

70. Trafododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-23, gan gynnwys barn y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15). Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod hi o'r farn fel 'prif swyddog archwilio' Cyngor Sir Ynys Môn, bod fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad wedi bod yn ddigonol ac effeithiol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023.

71. Yn dilyn trafodaeth ar sawl maes, gan gynnwys ariannu archwilio mewnol, mater/risg sy'n weddill ers cryn amser, strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a phroses hunanasesu corfforaethol y Cyngor, nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

72. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cyflwyno canlyniad Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a gynhaliwyd trwy adolygiad cymheiriaid gan Gyngor Sir y Fflint, hefyd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023 (3.4.8.10.14). Nododd y Pwyllgor yr asesiad 'cydymffurfio cyffredinol' sy'n adlewyrchu'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol PSIAS a derbyniwyd yr adroddiad.

73. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Siarter Archwilio Mewnol, sy'n diffinio'r gweithgareddau, pwrpas a chyfrifoldebau o ran archwilio mewnol, ym mis Ebrill 2024 (3.4.8.10.3).

74. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol a nodi'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i sicrhau na fydd unrhyw rolau a chyfrifoldebau ychwanegol a ymgymerir gan y Pennaeth Archwilio a Risg y tu allan i'r maes archwilio mewnol yn amharu ar ei hannibyniaeth a gwrthrychedd (3.4.8.10.13).

75. Yn yr un cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.1/2/5/6). Yn dilyn trafodaeth ynghylch capasiti, trefniadau recriwtio a chynllunio olynol o fewn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, y cydbwysedd rhwng adnoddau mewnol a thrydydd parti a rôl Archwilio Mewnol mewn prosiectau trawsnewid gwasanaethau, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25 a chymeradwyo'r dull a'r blaenoriaethau a amlinellir fel rhai sy'n diwallu anghenion sicrwydd y Cyngor.

76. Drwy gydol y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar weithgareddau archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau arwyddocaol, meysydd pryder, ymateb rheolwyr a'r camau gweithredu a oedd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol (Mehefin, Medi, Rhagfyr 2023 a Chwefror ac Ebrill 2024). Ystyriodd y Pwyllgor grynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn, gan gynnwys copïau llawn o adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig, ynghyd â'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda'r rheolwyr (3.4.8.10.10).

77. Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt trwy dderbyn dau adroddiad, un ym mis Medi 2023 a'r llall ym mis Ebrill 2024 (3.4.8.10.10/11). Ystyriodd y Pwyllgor berfformiad y Cyngor a statws yr holl gamau gweithredu sy'n weddill a godwyd gan archwilio mewnol, gan gynnwys crynodebau manwl o gynnydd wrth fynd i'r afael â phroblemau/risgiau 'sylweddol/ambr'.

78. Mae'r Pwyllgor a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgysylltu'n effeithiol (3.4.8.10.16). Yn benodol, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob amser ar gael i'r Pennaeth Archwilio a Risg, yn cynnwys y cyfle i gael cyfarfod preifat â'r Pwyllgor ar gais (3.4.8.10.17).

# Archwilio Allanol

79. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r trefniadau archwilio allanol ac yn ystyried cwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol. Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Amlinellol Archwilio Cymru ar gyfer 2023, a oedd yn nodi cyfrifoldebau statudol yr Archwilwyr, manylion y tîm archwilio a'r amserlen archwilio yn ogystal â chrynodeb o'r newidiadau allweddol i'r ISA315 ac effaith bosibl hyn ar y Cyngor, ym mis Mehefin 2023 (3.4.8.11.3).

80. Yna ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio manwl Archwilio Cymru 2023, a oedd yn amlinellu'r gwaith y bwriedir ei wneud mewn perthynas â'r archwiliad ariannol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â'r rhaglen o waith ardystio grantiau ac amserlen adrodd archwilio, yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 (3.4.8.11.1/3).

81. Ystyriodd y Pwyllgor lythyr blynyddol yr archwilydd allanol ac adroddiad ISA 260 i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (3.4.8.11.1/2), yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023. Yn dilyn trafodaethau ynghylch nodyn i'r cyfrifon sy'n ymwneud â materion RAAC mewn dwy o ysgolion y Cyngor; gwaith gan yr archwilwyr i nodi twyll posibl mewn datganiadau ariannol, gan gynnwys eglurhad na ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll yn ystod yr archwiliad; yn ogystal â mân addasiadau i'r cyfrifon drafft a'r sefyllfa ariannol heriol ar gyfer 2024-25 a thu hwnt, penderfynwyd nodi adroddiad yr archwilydd allanol ar gyfer ei archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2022-23.

82. Penderfynodd y Pwyllgor nodi adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2023, a oedd yn dangos crynodeb o ganlyniad pob darn o waith a gwblhawyd, yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024.

83. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau chwarterol yn ystod y flwyddyn (ym mis Mehefin, Medi, Rhagfyr 2023 ac Ebrill 2024) ac adroddiadau archwilio allanol, gan gynnwys archwilio Rheoli Datblygu a Gorfodi Cynllunio (Medi 2023); Strategaeth Ddigidol y Cyngor (Chwefror 2024); ac asesiad o'i ddefnydd o wybodaeth perfformiad (Chwefror 2024).

84. Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiadau archwilio allanol a derbyn adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ym mis Rhagfyr 2022, a oedd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i adroddiadau archwilio allanol ynglŷn â'r Cyngor ac adolygiadau cenedlaethol, a'u hargymhellion cysylltiedig (3.4.8.11.3).

85. Ni chafodd y Pwyllgor ei gymell i wneud unrhyw argymhellion ynglŷn ag effeithlonrwydd y berthynas rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol yn ystod y flwyddyn (3.4.8.11.4).

86. Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn breifat ac ar wahân gydag archwilwyr allanol a mewnol heb swyddogion yn bresennol, yn dilyn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024. (3.4.8.11.5).

# Adroddiadau Ariannol

87. Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y Cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â nhw (3.4.8.12.1).

88. Cyn cymeradwyaeth gan y Cyngor llawn, adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol drafft a therfynol blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2022-23 (Gorffennaf a Rhagfyr 2023 yn y drefn honno), gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth polisïau a gwaith cyfrifo a meysydd dyfarnu o bwys (3.4.8.12.2).

89. Wrth ystyried y datganiadau ariannol drafft ym mis Gorffennaf 2023, trafododd y Pwyllgor sawl ffactor, gan gynnwys newidiadau neu dueddiadau sylweddol o'i gymharu â chyfrifon blynyddoedd blaenorol, cynnydd mewn prisiadau asedau a'r sail ar gyfer y cynnydd, effaith y cynnydd yn y gyfradd llog ar fenthyciadau ac elw ar fuddsoddi, yn ogystal â chynnydd mewn costau chwyddiant sy'n her ac effaith hyn ar wasanaethau wrth symud ymlaen.

90. Yn dilyn trafodaeth bellach ar y rhwymedigaethau pensiwn a'i effaith ar y cyfrifon, yn ogystal â gwaith cyfrifo mewn perthynas â gwariant cyfalaf ar gyfer asedau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor e.e. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft nas archwiliwyd ar gyfer 2022-23.

91. Trafododd y Pwyllgor adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant' ar faterion a oedd yn deillio o'r cyfrifon a archwiliwyd, a ph'un ai y dylid eu dwyn i sylw'r Cyngor (3.4.8.12.3) yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023. Yn dilyn trafodaeth (gweler Archwilio Allanol uchod), penderfynodd y Pwyllgor nodi Adroddiad Archwilio Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022-23.

# Delio â chwynion

92. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb dros adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol (3.4.8.14.1).

93. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol Pryderon a Chwynion y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar gyfer 2022-23 a oedd yn nodi materion a godwyd o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023.

94. Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, yn dilyn dadansoddiad o ddata cwynion, y byddai hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid yn cael ei gynnal ar draws y sefydliad gan ganolbwyntio i ddechrau ar wasanaethau lle ceir lefelau uwch o gwynion/pryderon. Yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Tai a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, meysydd gwasanaeth penodol lle gwelwyd cynnydd mewn cwynion yn ystod y cyfnod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

95. Derbyniodd y Pwyllgor Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022-23. Amlinellodd y ddogfen y gwaith safonau cwynion a wnaed gan yr OGCC dros gyfnod o 12 mis yn ogystal â chrynodeb o berfformiad y Cyngor yn y maes hwn (3.4.8.13.1).

96. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Pwyllgor nodi a derbyn Llythyr Blynyddol 2022-23 ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i gadarnhau i'r Ombwdsmon fod y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'r Llythyr Blynyddol a rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a, thrwy hynny, yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor. (3.4.8.14.2).

# Adroddiad hunanasesiad

97. Yn ystod bob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad hunanasesiad drafft gan y Cyngor [a fydd yn cael ei ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau)] (3.4.8.15.1).

98. Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol drafft 2022-23, a oedd yn darparu asesiad ar sail tystiolaeth o sut y perfformiodd y Cyngor yn 2022-23 gan ddefnyddio'r adnoddau a oedd ar gael iddo i reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023. (3.4.8.1.4).

99. Wrth adolygu'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor sawl sylw ac awgrym, gan gynnwys darparu enghreifftiau i gefnogi honiadau am berfformiad, gan gynnwys gwybodaeth i gymharu â blynyddoedd blaenorol i dynnu sylw at dueddiadau mewn perfformiad, yn ogystal â gwybodaeth feintiol i helpu i ddeall y data, a sicrhau cydberthynas rhwng meysydd a asesir fel rhai 'digonol' a chamau gweithredu arfaethedig i sicrhau gwelliannau. (3.4.8.4.4).

100. Penderfynodd y Pwyllgor gytuno â chynnwys yr adroddiad hunanasesiad ar gyfer 2022-23 ac argymell ei fod yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn, yn amodol ar ystyried y pwyntiau uchod. (3.4.8.15.1/2/3/4).

# Asesiad perfformiad panel

101. O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol rhaid cynnal asesiad perfformiad rhwng etholiadau cyffredinol i ethol Cynghorwyr i'r Cyngor. Fe all y Cyngor ddewis comisiynu asesiad perfformiad panel fwy nhag unwaith o fewn cylch etholiadol, ond nid yw hynny'n ofynnol o dan y ddeddf (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

102. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei ymateb drafft i'r panel asesu ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo wedyn adolygu'r ymateb drafft a chaiff argymell unrhyw newidiadau i'r ymateb i'r panel asesu.

103. Ni chynhaliwyd asesiad perfformiad gan banel yn ystod 2023-24 (3.4.8.4.3 / 3.4.8.16).

# Archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol

104. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad arbennig o'r Cyngor (os yw'n ystyried bod y Cyngor yn methu, neu y gallai fod yn methu, â bodloni'r gofynion perfformiad).

105. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i ymateb drafft y Cyngor fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo ei adolygu. Fe all y Pwyllgor argymell newidiadau i'r ymateb, yn cynnwys camau arfaethedig y Cyngor. Os na caiff argymhellion y Pwyllgor eu mabwysiadu gan y Cyngor cyn cyhoeddi'r ymateb, rhaid nodi'r argymhellion ynghyd â'r rhesymau pam na chafodd y newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor eu gwneud gan y Cyngor (3.4.8.17.1/2/3).

106. Ni chynhaliwyd adolygiad arbennig o'r Cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2023-24.

# Atodiad A – Amlder cyfarfodydd a phresenoldeb

| Aelodau | 23/05/23 | 29/06/23 | 27/07/23 | 21/09/23 | 07/12/23 | 08/02/24 | 18/04/24 | Cyfarfodydd a fynychwyd (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| Cyngh Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | 86 |
| Cyngh Geraint Bebb | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| Cyngh Dyfed Wyn Jones | ✓ | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 71 |
| Mr William Parry (Aelod Lleyg) | ✓ | Na | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 86 |
| Cyngh Keith Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| Cyngh Dafydd Roberts[4] | ✓ | - | - | - | - | - | - | 100 |
| Cyngh Margaret M. Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | ✓ | 86 |
| Ms Sharon Warnes (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | Na | ✓ | ✓ | ✓ | 86 |
| Mr Michael Wilson (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| Cyngh Liz Wood | ✓ | Na | Na | ✓ | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | 29 |
| Cyngh Trefor Lloyd Hughes[5] | - | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | ✓ | Ymddiheuriadau | 50 |
| Cyngh Ieuan Williams5 | - | Ymddiheuriadau | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | 50 |
| Cyngh Robin Williams (Deilydd Portffolio Cyllid) | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[6]** | 11 | 9 | 11 | 9 | 10 | 11 | 11 | |



[4] Ym mis Mehefin 2023, gadawodd y Cynghorydd Dafydd Roberts y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ymuno â'r Pwyllgor Gwaith.
[5] Ym mis Mehefin 2023, ymunodd y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes ac Ieuan Williams â'r Pwyllgor.
[6] Yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor, mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth Aelod etholedig a phedwar aelod lleyg. Ni fydd Aelodau Etholedig yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo modd, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

# Atodiad B – Hyfforddiant Aelodau 2022-24

| | Penodol i'r Pwyllgor | | | | | | | | Mandadol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anwytho | Datganiadau Ariannol | Cwynion | Rheoli Trysorlys | Deall Cyfrifon Awdurdod Lleol i Gynghorwyr | Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Atal Twyll a Llygredd | Rheoli Risg | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol | Ymwybyddiaeth Seiber[7] | Ymwybyddiaeth Diogelwch Cyffredinol | Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Atal** | Caethwasiaeth Fodern** | Cyfanswm Presenoldeb /Cwblhau |
| **Mr Dilwyn Evans (LM)* (Cadeirydd)** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 15/09/23 | 22/06/23 | 17/10/23 | 04/12/23 | 13/03/24 | 05/09/22 | 12/05/22 | - | Opsiynol | 12/09/19 | Opsiynol | **92%** |
| **Cyngh Eurfyn Morris (Dirprwy Gadeirydd)** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 15/09/23 | - | 11/10/23 | - | - | 07/09/22 | 18/05/22 | 20/09/22 | 12/06/22 | 12/06/22 | 07/09/23 | **79%** |
| **Cyngh Geraint Bebb** | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | Ymddiheuriadau | 24/08/23 | - | 04/12/23 | - | 16/11/23 | 12/05/22 | 27/11/23 | 29/09/22 | 19/05/24 | 19/05/24 | **79%** |
| **Cyngh Neville Evans** | 23/06/22 | Ymddiheuriadau | 09/09/22 | 14/09/22 | - | - | - | - | 06/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **43%** |
| **Cyngh Dyfed Wyn Jones** | 23/06/22 | 13/07/22 | Ymddiheuriadau | Absennol | - | - | - | - | 06/09/22 | 11/05/22 | 26/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **36%** |
| **Mr William Parry (LM)*** | Ymddiheuriadau | Absennol | 09/09/22 | Absennol | - | 17/10/23 | - | - | - | - | - | Opsiynol | Opsiynol | Opsiynol | **18%** |

[7] Roedd ymwybyddiaeth seibr yn rhan o hyfforddiant rhagarweiniol ar gyfer carfan newydd y Cyngor ym mis Mai 2022.
*Aelodau Lleyg.
**Opsiynol ar gyfer aelodau lleyg.

| Penodol i'r Pwyllgor | | | | | | | | | Mandadol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anwytho | Datganiadau Ariannol | Cwynion | Rheoli Trysorlys | Deall Cyfrifon Awdurdod Lleol i Gynghorwyr | Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Atal Twyll a Llygredd | Rheoli Risg | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol | Ymwybyddiaeth Seiber[7] | Ymwybyddiaeth Diogelwch Cyffredinol | Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | Atal** | Caethwasiaeth Fodern** | Cyfanswm Presenoldeb /Cwblhau |
| Cyngh Keith Roberts | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | - | - | 04/12/23 | - | 7/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **57%** |
| Cyngh Margaret M. Roberts | 23/06/22 | Ymddiheuriadau | (21/07/21) | 15/09/23 | - | - | 04/12/23 | - | 15/11/23 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **50%** |
| Ms Sharon Warnes (LM)* | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22 | - | 17/10/23 | 04/12/23 | 19/03/24 | 19/10/22 | 12/05/22 | - | Opsiynol | Opsiynol | Opsiynol | **82%** |
| Mr Michael Wilson (LM)* | 23/06/22 | 13/07/22 | 09/09/22 | 14/09/22<br>15/09/23 | 22/06/23 | 11/10/23 | 04/12/23 | 19/03/24 | 22/02/19 | 12/05/22 | - | 21/12/17 | Opsiynol | Opsiynol | **92%** |
| Cyngh Liz Wood | 23/06/22 | 13/07/22 | Absennol | Absennol | - | - | - | 19/03/24 | 16/11/23 | 11/05/22 | 27/11/23 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **43%** |
| Cyngh Trefor Lloyd Hughes | 11/05/22 | - | - | - | - | - | - | - | 16/11/23 | 11/05/22 | 27/11/23 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **29%**[8] |
| Cyngh Ieuan Williams | 11/05/22 | - | - | - | - | - | 04/12/23 | - | Ymddiheuriadau | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | **29%**[8] |
| **Cyfanswm** | **12/13 (92%** | **8/13 (62%)** | **9/13 (69%)** | **7/13 (54%)** | **3/13 (23%)** | **5/13 (39%)** | **7/13 (54%)** | **4/13 (31%)** | **11/13 (85%)** | **12/13 (92%)** | **9/13 (69%)** | **3/13 (23%)** | **3/13 (23%)** | **2/13 (15%)** | |

Tudalen 85

[8] Ni ymunodd y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes a Ieuan Williams tan fis Mehefin 2023.

# Atodiad C – Crynodeb o Ganlyniad y Cyfarfod

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| **23 Mai 2023** | Etholodd y Pwyllgor Mr Dilwyn Evans yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Euryn Morris yn ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| **29 Mehefin 2023** | Trafododd y Pwyllgor naw eitem o bwys.<br><br>Cafwyd diweddariad am gynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei darged sero-net, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddata a gostyngiadau allyriadau carbon. Cyflwynwyd dangosfwrdd allyriadau carbon, gan fanylu ar allyriadau o wahanol ffynonellau fel ysgolion a chyfleusterau'r cyngor. Roedd y trafodaethau'n cynnwys effaith mesurau ynni-effeithlon ac effeithiolrwydd adeiladau newydd y Cyngor o ran cyflawni statws sero-net. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn diweddariadau blynyddol ar gynnydd tuag at sero-net.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad hunanasesiad blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23, a oedd yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor a meysydd i'w gwella. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac enghreifftiau i gefnogi gwybodaeth am berfformiad.<br><br>Nododd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Amlinellol Archwilio Cymru ar gyfer 2023 a derbyniodd y wybodaeth ddiweddaraf am eu rhaglen waith. Esboniwyd newidiadau i waith archwilio yn sgil newidiadau i ISA 315, gan effeithio ar weithdrefnau asesu risg cyn archwiliad.<br><br>Trafododd y Pwyllgor ddwy eitem yn ymwneud ag Archwilio Mewnol, gan dderbyn sicrwydd yn dilyn asesiad ansawdd allanol o gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, yn ogystal â nodi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-23 a oedd yn cynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd rheoli risg, llywodraethiant y Cyngor, a'r fframwaith rheoli.<br><br>Roedd Adroddiad Yswiriant Blynyddol yn manylu ar drefniadau yswiriant a thueddiadau hawliadau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022-23 a thrafododd y trefniadau ar gyfer cynnal hunanasesiad o'i berfformiad i'w hwyluso gan CIPFA.<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2023-24. |
| **27 Gorffennaf 2023** | Trafododd y Pwyllgor bedair eitem o bwys.<br><br>Rhoddodd ystyriaeth i gynllun archwilio manwl Archwilio Cymru ar gyfer 2023 yn ymwneud ag archwilio ariannol a pherfformiad, gwaith ardystio grantiau ac adroddiadau archwilio. Wrth nodi'r adroddiad, cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y cynnydd yn y ffi archwilio o ganlyniad i ofynion ychwanegol a osodwyd gan y safon archwilio ISA 315.<br><br>Ar ôl ystyried a thrafod cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022-23 a fydd yn ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2022-23.<br><br>Wrth graffu ar Ddatganiad Cyfrifon drafft 2022-23, cyfeiriodd y Pwyllgor at gymhlethdod adroddiadau ariannol a gofynnodd am gynnwys crynodeb o brif bwyntiau'r cyfrifon ar wefan y Cyngor. Roedd trafodaethau hefyd yn canolbwyntio ar dueddiadau ariannol, prisio asedau, rheoli dyledion, ac effaith cyfraddau llog.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'w Rhaglen Waith i'r Dyfodol 2023-24. |

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| **21 Medi 2023** | Ystyriodd y Pwyllgor wyth eitem o bwys.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i ddau adroddiad yn ymwneud â phryderon a chwynion a wnaed am y Cyngor; Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2022-23 a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022-23. Nododd y Pwyllgor y ddau adroddiad, cefnogwyd y bwriad i weithredu Polisi Enghreifftiol yr OGCC a datblygu asesiad a strategaeth anghenion hyfforddi cwynion, a gofynnodd i'r Tîm Arweinyddiaeth adolygu hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor,<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor ddau adroddiad Archwilio Cymru, gan dderbyn diweddariad am gynnydd gwaith archwilio ariannol a pherfformiad a nododd ganfyddiadau archwiliad Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn ogystal ag ymatebion y Cyngor i argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r gwaith hwn.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2022-23. Wrth wneud hynny, adolygwyd gwaith rheoli trysorlys gan gynnwys rheoli dyledion a buddsoddiadau, derbyniwyd crynodeb o ganlyniadau ariannol a dangosyddion darbodus a thrafodwyd gwariant cyfalaf a chymhlethdodau adroddiadau ariannol. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ac fe'i anfonwyd ymlaen i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am waith Archwilio Mewnol yn ogystal â blaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol. Nododd hefyd gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â materion/risgiau sy'n weddill a nodwyd o ganlyniad i waith archwilio mewnol.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn fodlon derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cynigiwyd a nododd unrhyw newidiadau. |
| **7 Rhagfyr 2023** | Ystyriodd y Pwyllgor wyth prif eitem.<br><br>Ystyriodd y cynnydd a wnaed gan ysgolion o ran cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, cymeradwywyd Cynllun Diogelu Data Ysgolion a gwnaed cais i gopi o'r ddogfen Canllawiau Diogelu Data i lywodraethwyr ysgol gael ei ddosbarthu i'r holl aelodau etholedig.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon terfynol 2022-23 ac Adroddiad ISA 260 Archwilio Allanol. Yn dilyn trafodaethau ynghylch heriau ariannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys cynnydd posibl yn y gyllideb a goblygiadau materion RAAC, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn Datganiad Terfynol y Cyfrifon, cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a nodi Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022-23 cyn i'r Cyngor llawn eu derbyn.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23 a nododd y gweithgaredd a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn y Cyngor neu yn ei erbyn. Nododd hefyd adroddiad Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a chafwyd sicrwydd fod y Cyngor yn defnyddio data a ddadansoddwyd a ddarperir gan yr NFI i gryfhau ei waith i atal a chanfod twyll.<br><br>Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am waith Archwilio Mewnol, gan gynnwys ei flaenoriaethau wrth symud ymlaen. Hefyd rhoddodd ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar y newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol er mwyn sicrhau ei fod yn fwy cyson â Chynllun newydd y Cyngor 2023-28.<br><br>Nododd y Pwyllgor adroddiad diweddaru chwarterol Archwilio Cymru ar 30 Medi 2023, yn manylu ar gynnydd archwilio ariannol a pherfformiad ac yn cynnwys gwaith gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Roedd yn fodlon derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cynigiwyd, trafodwyd cynnydd gyda'r ymarferion hunanasesu a hwylusir gan CIPFA a gwnaed cais i holiadur asesu anghenion hyfforddi'r Pwyllgor gael ei ddosbarthu i aelodau. |

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| **8 Chwefror 2024** | Trafododd y Pwyllgor 11 prif eitem.<br><br>Ystyriodd ddau adroddiad yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth, derbyniwyd adroddiad blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer 2022-23 ac ystyriwyd canlyniadau ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddigwyddiad seiber 2021 yn Ysgolion Uwchradd y Cyngor. Derbyniodd y pwyllgor y ddau adroddiad gan gynnwys argymhellion y SIRO ar gyfer asesu risg diogelu data ymhellach wrth weithio mewn partneriaeth a bygythiadau seiber wrth reoli a chaffael contractau.<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2022-23, cefnogwyd y cynllun strategol ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Gwnaed cais i gynnwys camau gweithredu ychwanegol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys ymgorffori data digwyddiadau cyn COVID mewn adroddiadau yn y dyfodol, manylu ar gwympiadau mewn cartrefi gofal ar wahân, a darparu data ar hawliadau a chostau yswiriant.<br><br>Ar ôl eu hystyried, nododd y Pwyllgor ddau adroddiad yn ymwneud â Rheoli Trysorlys; adolygiad canol blwyddyn 2023-24 yn ogystal â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2024-25.<br><br>Fe'i diweddarwyd am ganlyniad gwaith Archwilio Mewnol yn ogystal ag adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r Archwiliad Iechyd Rheoli Risg a gynhaliwyd gan Zurich Resilience Solutions. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael ag argymhellion Zurich.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor ddau adroddiad gan Archwilio Cymru, adolygiad o Strategaeth Ddigidol y Cyngor a'i ddefnydd o Wybodaeth Perfformiad. Nododd y ddau adroddiad a derbyniodd ymateb y Cyngor i'r argymhellion a wnaed.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'w Flaenraglen Waith 2023-24.<br><br>Mewn sesiwn breifat, gohiriodd y Cadeirydd roi ystyriaeth i adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol 2023-24, oherwydd fod rhai aelodau'n cael trafferth cyrchu'r adroddiad cyn y cyfarfod. |
| **18 Ebrill 2024** | Trafododd y Pwyllgor 10 prif eitem.<br><br>Trafododd y Pwyllgor bedair eitem yn ymwneud ag Archwilio Mewnol. Roedd Diweddariad Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar archwiliadau a gwblhawyd a rhai'n parhau, gyda thrafodaethau ar faterion yn cynnwys adennill dyledion a gweinyddu grantiau cyfleusterau i'r anabl. Codwyd pryderon am ddiffyg gwybodaeth gyd-destunol mewn adroddiadau archwilio a'r modd yr ymdrinnir â dyled ar fantolen y Cyngor. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad hefyd ar gynnydd o ran gweithredu Materion a Risgiau sy'n weddill ac roedd yn fodlon cymeradwyo'r Strategaeth ar gyfer 2024-25 a'r Siarter cysylltiedig.<br><br>Trafododd y Pwyllgor ganlyniad adolygiad CIPFA o'i effeithiolrwydd a chymeradwyodd y camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â 10 argymhelliad CIPFA. Trafododd y Pwyllgor amrywiol bwyntiau, gan gynnwys paratoi logiau gweithredu, gwahaniaethau mewn adroddiadau wedi'u cyfieithu, a'r angen am fwy o adborth ar berfformiad y Pwyllgor o'r rheolwyr.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen ar y cynnydd o ran gweithredu argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod eu Hadolygiadau Cenedlaethol a gwnaed cais i adroddiadau yn y dyfodol fod yn fwy cryno. |

Tudalen 88

| Dyddiad | Canlyniad y Cyfarfod |
|---|---|
| | Rhoddodd Archwilio Cymru ddiweddariad ar ei raglen waith a'i amserlen ar gyfer ei waith ariannol a pherfformio, a chanlyniad ei waith a wnaed yn ystod 2023. Gwnaed cais gan y Pwyllgor i gynnwys adroddiad eglurhaol i gyd-fynd ag adroddiadau yn y dyfodol a oedd yn nodi pwrpas pob adroddiad a'r disgwyliadau ar y Pwyllgor sy'n ei ystyried.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn fodlon derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cynigiwyd.<br><br>Daeth y cyfarfod i ben gan wahardd y wasg a'r cyhoedd tra thrafodwyd yr adroddiad seiberddiogelwch blynyddol, a oedd yn pwysleisio'r heriau a wynebir a'r camau lliniaru sydd yn eu lle. Gwnaed cais gan y Pwyllgor fod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys achosion lle ymosodwyd ar ddulliau'r Cyngor i sicrhau diogelwch seiber, ynghyd â'r camau unioni a gymerwyd.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod, cyfarfu aelodau'r Pwyllgor yn breifat gydag archwilio mewnol ac allanol, heb i swyddogion fod yn bresennol. Cafwyd trafodaeth fuddiol, a gofynnodd y Pwyllgor i hyn fod yn ddigwyddiad blynyddol yn y dyfodol. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am hynt y gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed gan CIPFA yn dilyn ei adolygiad o effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn 2024. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad yn dilyn darn o waith a gwblhawyd i fodloni gofynion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022, sy'n argymell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.

1.2. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried canlyniad yr adroddiad, argymhellion CIPFA ar gyfer gwella a'r camau a gynigiwyd gan reolwyr ac aelodau'r Pwyllgor i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

1.3. Mae'r adroddiad hwn y rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed gan CIPFA.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau gweithredu yn y tabl isod a'i fod yn fodlon gyda'r modd y mae'r argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith.

## Cynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Diwygio a symleiddio cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys pob agwedd ar ei waith, a dileu unrhyw ddyblygu. | Cytunwyd. Bydd yn cael ei wneud yn ystod yr adolygiad o'r Cyfansoddiad. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>31 Mawrth 2024 | Ar waith.<br><br>Mae'r Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddiwygio yn unol â'r argymhellion yn adolygiad CIPFA.<br><br>Rhannwyd copi â'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 ar 13/05/24. Derbyniwyd ymateb ar 20 a 21/05/24 yn y drefn honno.<br><br>Rhannwyd copi dwyieithog â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28/05/24, a gofynnwyd am ymateb erbyn 11/06/24.<br><br>Cyflwynwyd y fersiwn terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27/06/24 i'w gymeradwyo'n ffurfiol. |
| 2 | Cynllunio agendâu pwyllgor i flaenoriaethu'r eitemau lle gall y Pwyllgor gael effaith, a'i gefnogi i wneud hynny. Sicrhau bod adroddiadau i'r Pwyllgor yn nodi'n glir pam mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno, a rôl aelodau'r pwyllgor wrth | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu'r agenda drafft i sicrhau bod trefn yr eitemau yn briodol, a bydd yr eitemau i'w nodi yn cael eu symud i'r diwedd.<br><br>Mae'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiadau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad trosolwg. Fodd bynnag, bydd Pennaeth Archwilio a Risg yn | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | Wedi'i gwblhau. |

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| | dderbyn ac ystyried yr adroddiadau hyn. | adolygu pob un i sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n llawn ac yn ddigonol.<br><br>Mae'r Flaenraglen Waith hefyd yn cyfeirio at gylch gorchwyl y Pwyllgor mewn perthynas â phob eitem, felly mae adroddiadau'n cael eu blaenoriaethu a'u cyflwyno fesul un drwy gydol y flwyddyn. | | |
| 3 | Annog swyddogion i roi cyflwyniadau byr i'w hadroddiadau er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol. Ystyried gosod terfyn amser ar gyfer cyflwyniadau swyddogion. | Fel yr uchod, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu adroddiad trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau ei fod yn ddigonol ac wedi'i gwblhau'n llawn. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | Wedi'i gwblhau. |
| | | Bydd yn trafod gyda'r Cadeirydd ynghylch cyfeirio at yr adroddiadau trosolwg hyn. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | Wedi'i gwblhau. |
| | | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn trafod darparu hyfforddiant i swyddogion ar adrodd i'r Pwyllgor gyda'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu AD. | Rheolwr Hyfforddi a Datblygu AD<br><br>31 Mawrth 2025 | Ar waith. Mae'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu AD wedi cadarnhau bod hyfforddiant ar gyfer swyddogion sy'n adrodd i bwyllgorau wedi'i gynnwys ar y cynllun hyfforddi ar gyfer 2024/25. |
| 4 | Ailystyried cydbwysedd rolau gweinyddol y pwyllgor i gefnogi'r | Mae adnoddau presennol y Gwasanaethau Democrataidd yn golygu nad oes cynhwysedd i gefnogi ymhellach. Mae hyn yn annhebygol o | Prif Weithredwr a Swyddog Monitro | Wedi'i nodi. |

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| | Pwyllgor i weithio'n fwy effeithiol. | newid oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol. | | |
| 5 | Symud at gofnodion sy'n canolbwyntio ar weithredu, sy'n cofnodi elfennau allweddol y drafodaeth a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn unig. Defnyddio termau cyson ynghylch penderfyniadau. | Cytunwyd. Byddwn yn cynhyrchu cofnodion sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu a phenderfyniadau'r Pwyllgor. | Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyfarfod nesaf | Wedi'i gwblhau. |
| 6 | Cefnogi'r aelodau lleyg presennol i gael eu hintegreiddio'n fwy i'r Pwyllgor. | Y Cadeirydd i ystyried proses arfarnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor. | Cadeirydd | Wedi'i nodi. Rydym wedi atgoffa'r aelodau lleyg bod modd iddynt ymuno yn y sesiynau briffio i aelodau. |
| 7 | Gweithio gyda chynghorwyr risg y Cyngor i sicrhau bod y Pwyllgor yn glir ynghylch ei rolau risg ac yn eu cyflawni. | Bydd y mater yn cael ei adolygu fel rhan o'r asesiad o drefniadau Rheoli Risg y Cyngor sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Zurich. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Ar unwaith | Wedi'i gwblhau. Mae'r Polisi, Strategaeth a Chanllawiau Rheoli Risg wedi cael eu diweddaru i sicrhau bod y rolau'n glir. Mae paragraff wedi cael ei ychwanegu i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor o dan y pennawd Rheoli Risg er mwyn cadarnhau cyfrifoldebau'r Pwyllgor pan fydd yn gweithredu fel pwyllgor risg. |
| 8 | Ystyried sut y gall archwilio mewnol weithio'n agosach gyda'r Pwyllgor, gan gynnwys | Cytunwyd. Ar hyn o bryd mae Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfarfod â'r Cadeirydd ar sail ad hoc. Fodd bynnag, yn y dyfodol bydd yn cyfarfod | Pennaeth Archwilio a Risg/ Cadeirydd a | Ar waith. |

| Rhif. | Argymhelliad | Cam Gweithredu Arfaethedig | Person Cyfrifol / Dyddiad Gweithredu | Cynnydd / Statws |
|---|---|---|---|---|
| | cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda’r Cadeirydd cyn ac ar ôl cyfarfodydd, i nodi ffyrdd o ddatblygu’r Pwyllgor. | yn fwy ffurfiol gyda'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn dilyn pob cyfarfod. | Dirprwy Gadeirydd<br><br>Ar unwaith | |
| 9 | Cyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol ar wahân, yn ffurfiol ac yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn, a chwrdd â'r archwilwyr mewnol yn anffurfiol rhwng cyfarfodydd. | Cytunwyd. Fe drefnir cyfarfod preifat ar wahân rhwng Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol a'r Pwyllgor, heb i swyddogion eraill fod yn bresennol. Ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gofnodi na'i weddarlledu. Mae’r cyfarfod preifat cyntaf wedi’i drefnu ar gyfer 18 Ebrill 2024, i’w gynnal yn dilyn y cyfarfod ffurfiol. | Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Archwilio Cymru<br><br>Cadeirydd<br><br>Unwaith y flwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2024 | Wedi’i gwblhau. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael ei ddiweddaru fel bod hyn yn cael ei nodi’n glir. Cynhaliwyd y cyfarfod preifat cyntaf ar 18 Ebrill 2024. |
| 10 | Ystyried cynhyrchu nodyn briffio byr gan y Cadeirydd ar ôl pob cyfarfod, yn crynhoi'r pwyntiau allweddol i'w rhannu gyda'r holl aelodau. | Bydd cofnodion sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu yn cynorthwyo'r Cadeirydd i baratoi nodyn briffio, os yw'n teimlo bod hynny’n angenrheidiol. | Cadeirydd | Wedi’i gwblhau. Mae’r Cadeirydd wedi cynhyrchu Nodyn Briffio ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024 a chafodd ei rannu ag Aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Mai 2024. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad darn o waith a gwblhawyd i fodloni gofynion Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) mewn perthynas â Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022 a oedd yn argymell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.

1.2. Gofynnwyd i aelodau ystyried canlyniad yr adroddiad, argymhellion CIPFA ar gyfer gwella a'r camau y mae rheolwyr ac aelodau'r Pwyllgor yn eu cynnig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

1.3. Yn ystod trafodaeth ynglŷn â sut y gallai'r Pwyllgor gael mwy o effaith a bod yn fwy rhagweithiol, yn hytrach nac ymatebol, awgrymodd aelod y dylid cadw log gweithredoedd ar ôl pob cyfarfod er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro'r gweithredoedd/penderfyniadau y cytunwyd arnynt o ran eu cynnydd a'u cwblhau.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 18/04/24 | 3 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i greu log gweithredoedd i fonitro cynnydd yn erbyn gweithredoedd/penderfyniadau sy'n cael eu cytuno ym mhob cyfarfod. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi datblygu Log Gweithredoedd a bydd yn ei gyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor. | Cwblhawyd<br><br>Ar waith o 27/06/24 |
| 2 | 18/04/24 | 3 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i anfon copi o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor at aelodau'r Pwyllgor, gan ddangos y newidiadau sy'n cael eu hargymell gan CIPFA, er mwyn i'r aelodau gynnig sylwadau arno cyn i'r Pwyllgor ei adolygu'n ffurfiol ym mis Mehefin 2024. | Pennaeth Archwilio a Risg | Mae'r Cylch Gorchwyl wedi cael ei adolygu'n unol ag argymhellion adolygiad CIPFA.<br><br>Copi wedi'i anfon at y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ar 13/05/24. Derbyniwyd ymatebion ar 20/05/24 a 21/05/24, yn y drefn honno.<br><br>Cyfieithiad Cymraeg wedi'i anfon at aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28/05/24, gydag ymatebion i'w cyflwyno erbyn 11/06/24.<br><br>Cyflwynwyd y fersiwn terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, i'w gymeradwyo'n ffurfiol, ar 27/06/24. | Cwblhawyd |
| 3 | 18/04/24 | 3 | Er mwyn i'r Pwyllgor fod yn fwy rhagweithiol, ystyried treialu dull o friffio'r Pwyllgor ymlaen llaw am | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a | Lle bo'n berthnasol, ystyrir cynnal sesiynau briffio gyda'r Pwyllgor cyn iddo drafod unrhyw eitemau newydd ac anghyfarwydd. | Wedi nodi. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | eitem fydd yn ymddangos ar y rhaglen er mwyn cynorthwyo aelodau i ymchwilio'r pwnc a chasglu syniadau cyn i'r mater gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Pwyllgor. | Swyddog Adran 151 | | |
| 4 | 18/04/24 | 8 | Yn y dyfodol, diwygio ffurf a chynnwys adroddiadau sy'n ymwneud ag adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion, yn unol â'r awgrym. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | |
| 5 | 18/04/24 | 9 | Yn y dyfodol, dylai adroddiadau gan Archwilio Cymru gynnwys adroddiad eglurhaol sy'n nodi pwrpas pob adroddiad a beth a ddisgwylir gan y Pwyllgor wrth ei ystyried. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | |
| 6 | 18/04/24 | 13 | Yn y dyfodol, dylai'r Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol gynnwys unrhyw achosion (os bu rhai) lle mae amddiffynfeydd TG / seiberddiogelwch y Cyngor wedi cael eu goresgyn a'r camau adfer a gymerwyd. | Rheolwr TG | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc** | Adroddiad Archwilio Cymru ar osod amcanion llesiant |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>carysedwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Rhaglen<br>gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried adroddiadau perthnasol archwilio allanol (3.4.8.11.2) a monitro eu hargymhellion (3.4.8.11.3). Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor adolygu'r adroddiad a sicrhau y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- esbonio sut y gwnaeth Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant;
- rhoi sicrwydd i'r graddau y gweithredodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Adolygu'r archwiliad a'r ddau argymhelliad.
- Dylai ffurflen ymateb y sefydliad roi sicrwydd i'r pwyllgor o'r camau a gymerwyd gan y cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion.

# Gosod amcanion llesiant – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2024

Cyfeirnod dogfen: 4200A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

Cefndir: ein harchwiliadau o osod amcanion llesiant 4

Cynnal ein harholiad yng Nghyngor Sir Ynys Môn 5

Sut a phryd mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod ei amcanion llesiant 5

Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o osod ei amcanion llesiant newydd, ond mae cyfleoedd i gryfhau'r defnydd o ddata a nodi'r cyllid sydd ei angen 6

Argymhellion 10

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn edrych amdano 11

# Cefndir: Ein harchwiliadau o osod amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny osod a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf.[1] Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant.[2] Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r arholiadau hyn, hyd at ddechrau 2025.[3]

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal.[4]

4 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut beth allai da edrych.

5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant. Felly, mae'r arholiadau'n cynnwys ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysgu a sut y gallent wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arholiadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Ynys Môn

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- esbonio sut y gwnaeth Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant;
- rhoi sicrwydd i'r graddau y cymhwysodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Aethom ati i ateb y cwestiwn cyffredinol 'i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?'. Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y Cyngor i osod ei amcanion llesiant wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?

8 Buom yn trafod amseriad yr archwiliad gyda'r Cyngor.

9 Casglwyd ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- arsylwi cyfarfodydd blaenorol y Cyngor;
- adolygu dogfennau allweddol; a
- chynnal nifer fechan o gyfweliadau.

# Sut a phryd bu i Gyngor Sir Ynys Môn osod ei amcanion llesiant

10 Dechreuodd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) waith ar osod amcanion llesiant newydd ar gychwyn 2022 ac yna cyhoeddodd ei dri amcan newydd ym mis Mawrth 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r amcanion llesiant hynny.

11 Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion llesiant fel rhan o'i Gynllun Cyngor ar gyfer 2023-28, sydd hefyd yn cynnwys chwe amcan strategol. Gellir gweld Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 ar wefan y Cyngor.

**Arddangosyn 1: amcanion llesiant Cyngor Sir Ynys Môn 2023-28**

| |
|---|
| **Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir.** |
| **Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.** |
| **Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.** |

# Yr hyn a ganfuom

# Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o osod ei amcanion llesiant newydd, ond mae cyfleoedd i gryfhau'r defnydd o ddata a nodi'r cyllid sydd ei angen

**Proses gynllunio ar gyfer gosod amcanion llesiant a sail dystiolaeth**

12 Mae'r Cyngor wedi defnyddio rhywfaint o wybodaeth allweddol i helpu i osod ei amcanion llesiant. Yn benodol, mae'r Cyngor wedi defnyddio ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2021-22 a gwaith monitro ei Gynllluniau Cyflawni Blynyddol i asesu pa mor dda y mae wedi perfformio yn erbyn yr amcanion llesiant blaenorol ac a ydynt yn parhau i fod yn briodol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad, ond nid yw wedi gwneud defnydd o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol (gweler Atodiad 1 Dangosyddion Cadarnhaol o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol).

13 Mae'r Cyngor wedi ystyried risgiau a chyfleoedd lleol, ond nid yw'n glir sut y mae wedi ystyried tueddiadau'r dyfodol yn gyffredinol. Mae Cynllun y Cyngor yn cyfeirio at bwysau ariannol a galw, ac mae'r statws Porthladd Rhydd a'r posibilrwydd o atomfa newydd yn faterion hollbwysig i'r Cyngor. Fodd bynnag, bydd rhoi ystyriaeth ehangach i dueddiadau'r dyfodol yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod yr amcanion, ac yn bwysig, y camau i'w cyflawni, wedi'u cynllunio i ymateb i risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

14 Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai bylchau data a'r angen i wella ei ddealltwriaeth o wahaniaethau rhwng ardaloedd yn y sir. Mae hefyd wedi nodi'r angen i adeiladu

gwybodaeth i gefnogi datblygiad prosiectau allweddol i gyflawni'r amcanion llesiant. Gallai mynd i'r afael â'r bylchau ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r Cyngor ei defnyddio fel rhan o'i adolygiadau blynyddol o'r amcanion llesiant. Bydd gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol wrth adolygu a gosod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol.

## Ymgynghori a chynnwys eraill

15 Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori eang yn fewnol ac allanol i lywio ei amcanion llesiant. Trefnodd y Cyngor ddau ymarferiad ymgynghori; rhaglen ymgysylltu gychwynnol i lywio'r amcanion llesiant ac ymgynghoriad dilynol i geisio barn bellach ar yr amcanion drafft.

16 Ceisiodd y Cyngor annog cyfranogiad eang ar draws y ddau ymarfer ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys:

- rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r ymgynghoriad,
- dylunio'r deunyddiau i fod yn hygyrch ac yn ddeniadol, a
- chynnal sesiynau wyneb yn wyneb yn ogystal â'r ymgynghoriad ar-lein.

17 Ceisiodd y Cyngor hefyd gynnwys grwpiau a dangynrychiolir. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i gyrraedd grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn effeithiol. Yn ogystal â'r gweithgareddau a nodir uchod, cynhaliodd y Cyngor:

- grwpiau ffocws gyda Medrwn Môn,
- 11 grŵp ffocws mewn partneriaeth ag Age Cymru, a
- chysylltu â 22 o gynghorau ysgol yn cynnwys cynrychiolwyr disgyblion.

18 Dangosodd y Cyngor arfer da o ran darparu deunyddiau ymgynghori hawdd eu darllen gan eu gwneud yn fwy hygyrch i ystod ehangach o bobl a

- dosbarthu taflenni a phosteri,
- cynhyrchu hysbyseb radio,
- cynnal sesiynau wyneb yn wyneb mewn saith lleoliad, a
- darparu dolenni uniongyrchol i'r holiadur ar-lein ar y cyhoeddusrwydd ysgrifenedig i hyrwyddo'r cyfle i ddylanwadu ar yr amcanion llesiant.

19 Ymgynghorodd y Cyngor â'i staff yn ystod y cam ymgysylltu cychwynnol gan ofyn i bobl beth ddylai Cynllun y Cyngor ei gynnwys dros y pum mlynedd nesaf. Gwahoddodd y Cyngor staff hefyd i ymateb i'r amcanion llesiant drafft, yr amcanion strategol a'r ffrydiau gwaith. Arweiniodd eu mewnbwn at newidiadau wrth baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.

20 Derbyniodd y Cyngor nifer uchel o ymatebion, sef dros 2,500. Gallwn weld sut mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau ymgysylltu â'r cyhoedd a bod blaenoriaethau trigolion wedi'u hadlewyrchu yn yr amcanion llesiant terfynol. Fodd bynnag, nododd y Cyngor fod pobl ifanc 16-24 mlwydd oed wedi'u tangynrychioli yn yr ymarferion ymgynghori. Mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â hyn drwy

ystyried sut y gallai wella'r broses o sicrhau adborth gan y grŵp hwn yn benodol, ar sail barhaus, o fewn ei strategaeth cyfranogiad nesaf. Mynegodd yr aelodau bryder bod cyfran yr ymatebion a gyflwynwyd yn Gymraeg yn is na'r disgwyl a chytunwyd i ymchwilio ymhellach.

## Cynllunio i wella llesiant

21 Cynlluniodd y Cyngor ei amcanion llesiant i gyflawni canlyniadau y tu hwnt i gyfnod y cynllun. Mae'r Cyngor wedi dylunio llawer o'i nodau strategol o dan yr amcanion llesiant i ddwyn ffrwyth dros nifer o flynyddoedd, megis gwelliannau i'r newid yn yr hinsawdd a'r iaith Gymraeg. Mae gan y Cyngor Strategaeth Ataliol, sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd i gyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023-28. Ceisia'r Strategaeth fynd i'r afael â sut y gall ymyrraeth gynnar gan y Cyngor a phartneriaid helpu pobl ar adegau allweddol yn eu bywydau. Mae prosiectau'r Strategaeth yn ceisio mynd i'r afael ag achosion gwraidd problemau a chyflawni canlyniadau cadarnhaol tymor hwy i bobl.

22 Mae Cynllun y Cyngor yn dangos rhywfaint o ystyriaeth o sut mae ei amcanion llesiant yn berthnasol i'r saith nod llesiant cenedlaethol, amcanion ei bartneriaid a'i strategaethau corfforaethol ei hun.

23 Mae'r Cyngor yn defnyddio asesiad effaith integredig i ddatblygu polisi a'i helpu i wneud penderfyniadau. Mae'r asesiad yn arf i helpu'r Cyngor i ddeall ystod o effeithiau llesiant cenedlaethau'r dyfodol, cydraddoldeb, economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg o dan y gofynion deddfwriaethol amrywiol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad clawr a oedd yn cyflwyno Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi y byddai'n cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb, economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg ar brosiectau unigol Cynllun y Cyngor, yn hytrach nag ar gyfer y Cynllun ei hun. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau i gydymffurfio â'i ddyletswyddau cymdeithasol-economaidd sy'n benodol i Gymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd yn cynnwys cynnal asesiadau effaith o'r fath ar unrhyw benderfyniadau strategol, fel Cynllun y Cyngor.

## Cynllunio i gyflawni yr amcanion llesiant

24 Mae'r Cyngor wedi pennu amcanion sy'n ceisio ysgogi gweithgarwch ar draws y gwahanol adrannau. Cefnogir amcanion llesiant y Cyngor gan ei Gynlluniau Cyflawni Blynyddol a Byrddau Rhaglen Trawsnewid. Mae'r Byrddau hyn wedi'u sefydlu ar gyfer pob nod strategol (o dan yr amcanion llesiant) i alluogi trafodaethau strategol. Cefnogir integreiddio mewnol yn dda, gyda swyddogion o wahanol wasanaethau yn eistedd ar Fyrddau ei gilydd. Mae'r fformat hwn yn rhoi sicrwydd i aelodau ac uwch swyddogion ei fod yn darparu'r buddion a ragwelir i'r Cyngor a'i gymunedau.

25 Mae'r Cyngor wedi tynnu sylw uwch arweinwyr at ba rai o 57 o ffrydiau gwaith Cynllun y Cyngor sy'n ataliol eu natur. Fodd bynnag, gan mai dim ond blwyddyn gyntaf (2023-24) o weithgareddau Cynllun y Cyngor o dan yr amcanion llesiant

sydd wedi'u costio'n llawn, erys ansicrwydd ynghylch adnoddau tymor canolig a sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.

26 Er enghraifft, nid yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol i gyfnod yr archwiliad hwn (sy'n cwmpasu'r cyfnod 2022-23 i 2024-25) yn cyfeirio at y prosiectau o dan Gynllun y Cyngor. Mae darparu adnoddau i'r Cynllun hefyd yn dibynnu'n fawr ar arian grant. Adroddodd y Cyngor fod cyllid grant yn cefnogi neu'n ariannu 79% (45 allan o 57) o brosiectau Cynllun 2023-28. Mae cyllid grant o'i natur yn gyfnewidiol ac yn peri risg i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen rhywfaint o hyblygrwydd, ac efallai y bydd angen teilwra rhai prosiectau oherwydd pwysau ariannol.

27 Oni bai bod y Cyngor yn asesu beth fyddai effaith peidio â dyrannu cyllid ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo, bydd yn anodd blaenoriaethu. O ganlyniad, bydd mewn perygl o beidio â chyflawni canlyniadau disgwyliedig ei amcanion llesiant, gan gynnwys buddion ataliol.

## Monitro yr amcanion llesiant a gwersi a ddysgwyd

28 Mae'r Cyngor wedi sefydlu cynllun cyfathrebu a threfniadau monitro ar gyfer ei amcanion llesiant. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r cerrig milltir a'r mesurau, â'r rhan fwyaf ohonynt yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, perthnasol) yn ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2023-24. Mae mesurau interim hefyd wedi'u cynllunio i alluogi uwch arweinwyr i olrhain cynnydd ar gyfer cyflawni'r nod strategol. Mae rhai o fesurau perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor, ataliol. Er enghraifft, o dan yr amcan llesiant o 'Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl,' mae mesur i uwch arweinwyr weld canran yr aelwydydd â phlant yn cael eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref.

29 Mae dull adrodd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn galluogi uwch arweinwyr i weld 'ciplun' o gynnydd chwarterol ar brosiectau o dan bob amcan llesiant. Mae adran naratif yn cyflwyno'r cerdyn sgorio ac yn egluro tueddiadau ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder ar gyfer cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant.

30 Er bod y Cyngor wedi myfyrio ar ba mor effeithiol oedd ei ymgynghoriad, nid yw eto wedi ystyried sut y gallai wella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant yn y dyfodol. Mae gan y Cyngor gyfle i adlewyrchu sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar y broses ehangach a nodi'r hyn a aeth yn dda ac unrhyw welliannau y mae'n bwriadu eu gwneud pan fydd yn pennu ei amcanion llesiant nesaf.

# Argymhellion

**Effaith cyfyngiadau ariannol**

**A1**

Er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dylai'r Cyngor sicrhau bod fersiynau nesaf ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos yn glir

- sut bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu blaenoriaethu i gyflawni ei amcanion llesiant; a
- sut y gallai targedau arbedion presennol ac yn y dyfodol neu risgiau ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar gyflawni ei amcanion llesiant.

**Ystyried tueddiadau'r dyfodol**

**A2**

Dylai'r Cyngor roi ystyriaeth fanylach i dueddiadau, risgiau a chyfleoedd perthnasol er mwyn adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr ydym yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau a fydd yn helpu i lywio ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai dangosyddion cadarnhaol sydd wedi'u teilwra i'r archwiliad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid yw'r rhestr hon wedi'i chynllunio i gael ei defnyddio fel rhestr wirio, ond yn hytrach set ddarluniadol o nodweddion sy'n disgrifio sut allai da edrych.

| | |
|---|---|
| **I ba raddau mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?** | |
| **Cynllunio – A gafodd y broses a roddwyd y corff ar waith i osod ei hamcanion llesiant yn sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **Ydy'r corff wedi defnyddio data da dealluswydd ata arall i ddeall risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?** | **Dangosyddion cadarnhaol**<br>• Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol sydd wedi'u defnyddio i lywio dealltwriaeth y corff o'r 'fel y mae'/ angen tymor byr. |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant ar sail dealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>  ○ Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>  ○ Asesiadau poblogaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>  ○ Canlyniadau ymarferion ymglymiad / ymgynghori'n lleol<br>  ○ Monitro gwasanaethau a chwynion<br>  ○ Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Cymru ac<br>  ○ Asesiadau yn Seiliedig ar Ardaloedd.<br>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau pontio'r cenedlaethau drwy ei amcanion llesiant. |
| **Ydy'r corff wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau ymwneud er mwyn helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymwneud hwnnw -boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae ymwneud yn adlewyrchu arfer dda a chyngor da gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Ydy'r corff wedi ystyried sut gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella lles yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig iawn o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar/ ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio'i gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |

| | |
|---|---|
| **Ydy'r corff wedi cynllunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwyso â diwallu anghenion tymor byr?** | • Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac yn ceisio ymateb i'r heriau tymor byr a hirdymor sy'n bodoli. Eu bwriad oedd gyrru gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Nod yr amcanion yw diwallu angen tymor byr a thymor hwy. Lle mae amcanion wedi'u gosod dros amserlen fer i ganolig, maent wedi'u gosod yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |
| **Darparu adnoddau a chyflwyno - A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **Ydy'r corff wedi ystyried sut mae'n gallu rhoi adnoddau i'r amcanion llesiant?** | • Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau bod modd cyflwyno'r amcanion dros y tymor byr a chanolig;<br>mae'r corff hefyd wedi ystyried risgiau adnoddau mwy hirdymor a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i ddarparu buddion ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant. |
| **Ydy'r corff wedi ystyried sut gall weithio gydag eraill i wireddu eu hamcanion?** | • Mae'r corff yn tynnu ar ei wybodaeth am amcanion/ gweithgarwch partneriaid, ei berthynas a'i drefniadau<br>cydweithredol i wneud yn siŵr y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol. |

| **Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?** | |
|---|---|
| **Ydy'r corff wedi datblygu mesurau priodol a threfniadau monitro?** | • Dyluniwyd mesurau perfformiad i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/ sefydliadol a darparu buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Mae 'llinyn euraidd' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar y cynnydd i gyflawni'r amcanion. |
| **A yw'r corff yn ceisio dysgu o a gwella sut mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i osod ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn dangos hunan ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon sy'n peri effaith. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Ymateb Sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Gosod amcanion llesiant – Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad cwblhau:**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Effaith cyfyngiadau ariannol**<br>Er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dylai'r Cyngor sicrhau bod fersiynau nesaf ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos yn glir<br>• sut bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu blaenoriaethu i gyflawni ei amcanion llesiant; a<br>• sut y gallai targedau arbedion presennol ac yn y dyfodol neu risgiau ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar gyflawni ei amcanion llesiant. | Wrth ddatblygu ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn 23/24 cymerwyd i ystyriaeth ein amcanion llesiant. Cytunwyd y PG i roi arian ychwanegol i fewn i gyllideb Oedolion a Plant. Hefyd rhywfaint o doriadau i gyllideb ysgolion wedi cael ei lleihau gan y PG wrth osod y gyllideb. Hyn yn unol ac ein amcanion Llesiant:<br>1. Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir.<br>2. Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.<br><br>Bydd y Cyngor yn casglu'r gwybodaeth i drio asesu beth ydy'r gwir gost o weithredu popeth sydd yn Cynllun y Cyngor.<br>Gweithio gyda pob Pennaeth Gwasanaeth i wneud hyn drwy gasglu gwybodaeth ynglŷn a:<br>• Ein amcan strategol<br>• Ein ymrwymiad<br>• Targedau i gyrraedd yr uchod<br>• Cyllideb a tarddiad y gyllideb i wireddu'r uchod<br>• Cyllideb ychwanegol ei angen<br><br>Bydd y wybodaeth uchod wedyn yn bwydo mewn i'r Model Cynllun Tymor Canolig Ariannol ac yn mynd i'r Pwyllgor | **Mawrth 2025** | **Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau / Swyddog 151** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwaith yn Medi. Bydd yr asesiad yma yn cael ei drafod yn rheolaidd hefo'r Pwyllgor Gwaith cyn hynny fel rhan o'r proses paratoi am gyllideb 25/26.<br><br>Mae'n bwysig nodi fod yn anodd iawn i'r Cyngor wneud MTFP effeithiol tra fod ein cyllideb blynyddol ond yn cael ei gadarnhau gan LlC ychydig fisoedd cyn dechrau y flwyddyn ariannol. | | |
| **A2** | **Ystyried tueddiadau'r dyfodol**<br>Dylai'r Cyngor roi ystyriaeth fanylach i dueddiadau, risgiau a chyfleoedd perthnasol er mwyn adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol. | Wrth ddatblygu ein Cynllun y Cyngor 2023-2028 defnyddiwyd nifer o ddata demograffeg o'r sensws; yn cynnwys poblogaeth a tueddiadau poblogaeth er mwyn rhoid gwybodaeth a dealltwriaeth o newidiadau o fewn demograffig ein poblogaeth. Defnyddiwyd y wybodaeth yma wrth lunio ein amcanion strategol sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer ein dogfen gyflawni blynyddol.<br><br>Cyhoeddwyd CSYM Gynllun Strategol Digidol yn Chwefror 2024 fydd yn ein cefnogi i wireddu Cynllun y Cyngor, mae'n gosod ein ymrwymiadau i ddatblygu ein ffordd o weithio i ddefnyddio Digidol i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br><br>Yn deillio o hynny, rydym wedi datblygu dashfwrdd data o amgylch y maes tlodi a costau byw yn gysylltiedig a'n amcanion llesiant.<br><br>Pwrpas y dashfwrdd yma ydy darparu data ar dueddiadau yn ymwneud a tlodi; mae'n cynnwys data dros amser am:<br>1. Pobl yn ddi-waith<br>2. Nifer o bobl ar fudd-dalidau<br>3. Defnydd o fanciau bwyd ar yr Ynys | **Mawrth 2025** | **Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol** |

Rydym wedi cyhoeddi Cynllun Strategol Taclo Tlodi. Bydd y dashfwrdd data yn cael ei ddefnyddio i fesur effaith yn erbyn amcanion strategol o fewn y cynllun.

Rydym yn y broses o ddatblygu dashfwrdd net sero, sy'n darparu gwybodaeth gwerthfawr ynglŷn a'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn cynnwys data trosolwg a tueddiadau ar:

1. Defnydd ynni o fewn adeiladau y Cyngor
2. Defnydd tanwydd o gerbydau fflyd

Mae'r wybodaeth yma yn ein galluogi i ddeall ein gwaelodlin a mesur effaith unrhyw gynlluniau amgylcheddol sy'n cyfarch ein amcanion llesiant.

Mae gennym fwriad i ddatblygu ein defnydd o ddata a thueddiadau wrth ddatblygu dashfyrddau pellach.

Mae proses mwy integredig yn cael ei ddatblygu i ystyried cyllidebau'r dyfodol a fydd yn cynnwys gwaelodlin a tueddiadau demograffeg a socio-economaidd. Fe fydd hyn, gobeithio, yn rhoi mwy o sicrwydd bod penderfyniadau cyllidol yn ystyried yn llawn effaith ar lesiant trigolion yr Ynys yn y tymor byr, canolig, a hir.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc** | Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Diweddariad Chwarterol 31 Mawrth 2024 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ofynnol iddo oruchwylio trefniadau archwilio allanol (3.4.8.11.3) a goruchwylio effeithiolrwydd cysylltiadau rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill (3.4.8.11.4). Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor hefyd dderbyn ac ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, fydd yn ffynhonnell sicrwydd defnyddiol (3.4.8.13.1). | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa o ran cyflawni rhaglen waith Archwilio Cymru mewn perthynas â:

- gwaith archwilio ariannol ar Ddatganiad Cyfrifon 2023-24 a gwaith Ardystio Ffurflenni Grantiau sy'n mynd rhagddo, a
- gwaith archwilio perfformiad 2022-23 a 2023-24.

1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn darparu trosolwg o astudiaethau cenedlaethol awdurdodau lleol a gynlluniwyd ac sy'n mynd rhagddynt a ph'un y bwriedir gwneud gwaith maes yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Nid oes unrhyw waith maes wedi'i gynllunio yn y Cyngor ar hyn o bryd ar gyfer yr astudiaethau cenedlaethol.

1.3 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Nid yw'n manylu ar unrhyw waith penodol yn ymwneud â'r Cyngor.

1.4 Mae'r adroddiad yn darparu rhestr o adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers Mawrth 2023, ynghyd â gwaith sy'n mynd rhagddo ac a gynlluniwyd. Nid oes cyfeiriad penodol at y Cyngor yn unrhyw un o'r rhain.

1.5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn rhoi manylion am ddigwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Dda. Er bod cyfeiriad at ddigwyddiad yn ymwneud â Phwyllgorau Archwilio a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Mai 2024, mae cynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiad tebyg yng ngogledd Cymru'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried yr adroddiad ac yn nodi'r sicrwydd a ddarperir ynddo.

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 31 Mawrth 2024

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024.** | Rhagfyr 2024 | Bydd y gwaith drafftio yn dechrau ar ôl cwblhau'r Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2023-24 y Cyngor. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2023-24 y Cyngor** | Byddwn yn cwblhau'r archwiliad statudol o Ddatganiadau Ariannol a Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol y Cyngor | Awst – Tachwedd 2024 | Mae gwaith cynllunio archwiliad wedi dechrau |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grantiau:**<br><br>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2021-22 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br><br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Cwblhawyd profion archwilio ar gymhorthdal Budd-daliadau Tai 21-22 yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2024 | Ardystiwyd hawliad 2021-22 ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 2 Mai 2024 |
| **Ardystio Ffurflenni Grantiau:**<br><br>Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos nad yw'r ffurflen:<br><br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Nid yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Mae'r dyddiad cau ardystio wedi mynd heibio, ond yn gweithio tuag at 30 Medi 2024 | Mae gwaith archwilio ar hawliad cymhorthdal 2022-23 yn mynd rhagddo yn ystod haf 2024 |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Sefyllfa ariannol | Monitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus | Ar y gweill |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | • Rheoli'r rhaglen gyfalaf | Medi – Rhagfyr 2023 | Ni fydd Archwilio Cymru yn gwneud gwaith manwl ym mhob cyngor fel rhan o'n rhaglen waith 2022-23 Rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth llywodraeth leol yn edrych ar gynllunio cyfalaf mewn llywodraeth leol yn ddechrau yn 2024. |
| | • Defnyddio gwybodaeth am berfformio – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau | Chwefror – Medi 2023 | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2023 a chyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2024 |
| | • Gosod amcanion llesiant | Chwefror 2023 – Chwefror 2024 | Ar y gweill – adroddiad drafft yn cael ei glirio |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal Heb ei Drefnu** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy. | Awst 2022 – Hydref 2023 | Adroddiad drafft Gogledd Cymru wedi'i gyhoeddi i'w glirio ym mis Chwefror 2024 |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Adolygiad o ddull gweithredu strategol cynghorau o ran digidol, ac i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cynghorau. | Ionawr – Medi 2023 | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2023 a chyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2024 |
| **Adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodaeth Gynllunio** | Bydd yr adolygiad yn ceisio cadarnhau: A oes gan y Cyngor wasanaeth rheoli datblygu a gorfodaeth gynllunio effeithiol a chadarn? | Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023 | Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2023 a chyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2023 |

| **Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | Ar y gweill |
| **Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau** | Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Mawrth 2022 – Rhagfyr 2024 | Cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | Mawrth – Gorffennaf 2024 | Gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ebrill a mis Mai 2024 |
| **Prosiect lleol – Gwaith dilynol ar SATC 2018** | Byddwn yn adolygu ymateb y Cyngor i ganfyddiadau ein hadroddiad ar gyfer 2018. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethiant awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Drafftio adroddiadau – i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2024 | Na |
| **Trefniadau Llywodraethu mewn Awdurdodau Tân ac Achub** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant | Medi 2023 – Awst 2024 | Gwaith maes ar y gweill. I'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024. | Na |
| **Digartrefedd** | Archwilio sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r ymateb i ddigartrefedd | I'w gadarnhau | Cwmpasu | I'w gadarnhau |
| **Cynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol** | Archwilio a yw buddsoddiad cyfalaf yn y sylfaen asedau mewn llywodraeth leol yn gallu ateb galw | I'w gadarnhau | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfyngiadau ariannol / gwasanaethau llywodraeth leol yn ôl disgresiwn** | Archwilio'r effeithiau posibl a phrosesau penderfynu cynghorau yng nghyd-destun yr egwyddor datblygu cynaliadwy | I'w gadarnhau | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |

## Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Cyhoeddwyd adroddiad gwasanaeth addysg llywodraeth leol Conwy ar 18 Ionawr 2024, a thynnwyd sylw at arfer cryf yn y ffordd roedd yr awdurdod lleol yn gweithio ar draws ei feysydd gwasanaeth i ddarparu cymorth integredig i bobl ifanc agored i niwed.

Gwnaethom dreialu rhai o'n dulliau arolygu newydd ym Mro Morgannwg yn yr wythnos yn dechrau 11 Mawrth. Gwnaethom hefyd arolygu gwaith ieuenctid Bro Morgannwg yn yr wythnos yn dechrau 19 Chwefror 2024, a llywiodd canfyddiadau'r arolygiad hwnnw y sylfaen dystiolaeth ar gyfer arolygiad LGES. Bydd yr adroddiad ieuenctid a'r adroddiad LGES yn cael eu cyhoeddi ar 30 Ebrill. Yn ystod tymor y gwanwyn, cyfrannodd arolygwyr cyswllt Estyn at y gweithdai sicrwydd a risg gydag awdurdodau lleol ledled Cymru.

Yn ystod tymor yr haf, byddwn yn treialu ein hymweliadau cyswllt manylach â dau awdurdod lleol. Bydd yr ymweliadau'n cynnwys tri arolygydd cyswllt yn ymweld ag awdurdod lleol am ddau ddiwrnod, gan ganolbwyntio ar un neu ddwy agwedd benodol ar waith yr awdurdod lleol. Yr allbwn yw llythyr at y Prif Swyddogion Gweithredol a gyhoeddir ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol Ceredigion a Chaerffili. Byddwn yn gwneud gwaith maes ym mhob awdurdod lleol ar Weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ysgolion pob oed Blwyddyn 2. Mae'r adolygiad hwn yn dilyn adolygiad blwyddyn 1 o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 mewn ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau thematig** | | | |
| **Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT)** | Gan gydweithio ag AGIC, cwblhawyd gwiriad sicrwydd yn Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar Dimau Anabledd Dysgu Cymunedol (CLDT) | 2024-25 | Cyflawni |
| | Rydym yn cynllunio ein hail wiriad sicrwydd CLDT ym Mlaenau Gwent | Mawrth 2024 | Cynllunio |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | **Diben yr adolygiad**<br>Rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn cysylltiad â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus.<br>I ystyried i ba raddau y mae arferion wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus' a chyhoeddi adroddiad gweithgor amlinelliad cyfraith gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllawiau arferion gorau. | Ionawr 2024 | Wedi'i gyhoeddi |
| **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid**<br>**Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23** | Cyhoeddwyd adroddiad 2021-2022 ar 28 Chwefror 2024 Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid 2022-23 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Chwefror 2024 | Wedi'i gyhoeddi |

| **Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25** | **Cwmpas** | **Amserlen** | **Statws** |
| --- | --- | --- | --- |
| **Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)** | Byddwn yn cwblhau dau arolygiad aml-asiantaeth arall ar y cyd<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn Cyngor Sir Ddinbych wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Mae'r canfyddiadau yn dilyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Mae'r canfyddiadau o Gyngor Sir Ddinbych wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Powys 2023 \| Arolygiaeth Gofal Cymru | Ebrill 2023 – Ebrill 2024 | Cyflawni |
| | Cyhoeddir ein canfyddiadau o JICPA Caerdydd yn fuan | Yn aros am gael ei gyhoeddi | Yn aros am gael ei gyhoeddi |
| | Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ddechrau haf 2024 | Gorffennaf 2024 | Cynllunio |

| Gwaith arfaethedig AGC ar gyfer 2023-25 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygu perfformiad Awdurdodau Lleol** | Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru<br><br>Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion Cyngor Sir y Fflint ym mis Chwefror 2024 – Cyhoeddi adroddiad arolygu gwasanaethau oedolion a phlant Cyngor Sir y Fflint \| Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Gwnaethom gwblhau Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yng Nghyngor Sir Fynwy ym mis Chwefror-Mawrth. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad yn fuan | Ar y gweill | Ar y gweill |
| **Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Arolygiad o Wasanaethau Troseddwyr Ifanc** | Gwnaethom gefnogi’r gwaith o ddarparu Arolygiad Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc HMIP yn Sir Ddinbych a Chonwy. Cyhoeddir yr adroddiad yn fuan. | Yn aros am gael ei gyhoeddi | Yn aros am gael ei gyhoeddi |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ers mis Mawrth 2023

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru | Mawrth 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd | Chwefror 2024 |
| Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn defnyddio data o gyfrifon drafft 2022-23 | Ionawr 2024 |
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd | Ionawr 2024 |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd | Tachwedd 2023 |
| Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru | Tachwedd 2023 |
| Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a cholledion wedi'u dioddef – Cyngor Cymuned Harlech | Tachwedd 2023 |
| Diffodd y galwadau diangen: Ymatebion Awdurdodau Tân ac Achub i Signalau Tân Dieisiau | Hydref 2023 |
| Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: dilyniant (llythyr i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) | Hydref 2023 |
| Gweithlu’r GIG – briff data | Medi 2023 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru | Medi 2023 |
| Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU | Medi 2023 |
| Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol) | Medi 2023 |
| Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2023 | Medi 2023 |
| Adroddiadau er budd y cyhoedd – Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Cymuned Llanferres | Medi 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd | Awst 2023 |
| 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru | Awst 2023 |
| Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig | Mehefin 2023 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)[1, 2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Canfyddiadau paru data peilot fferylliaeth gymunedol | Ebrill 2024 |
| A465 Adran 2 – diweddariad | Mai 2024 |
| Rheolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau tref a chymuned | Mai – Mehefin 2024 |
| Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Mehefin 2024 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a phersbectif defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol | Mehefin 2024 |
| Tai fforddiadwy | Haf 2024 |
| Teithio llesol | Haf 2024 |
| Offeryn data cyllido'r GIG – hyd at 31 Mawrth 2024 | Haf 2024 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod rhagoriaeth mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 – sy'n rhoi manylion ychwanegol am ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â'r gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion am bynciau dangosol i'r gwaith ddechrau yn 2024-24 neu 2025-26. Yn ddiweddar, rydym wedi nodi cynlluniau ar gyfer meysydd gwaith newydd i ddechrau yn ystod 2024-25 yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25.

| **Teitl** | **Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig** |
|---|---|
| Cynllunio gweithlu'r GIG (negeseuon cenedlaethol) | Haf 2024 |
| Gwasanaethau canser | Diwedd haf 2024 |
| Canfyddiadau paru data peilot cofrestru meddygon teulu | Diwedd haf 2024 |
| Menter Twyll Genedlaethol – adroddiad bob dwy flynedd | Hydref 2024 |
| Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (y sector cyhoeddus cyfan ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru) | Adolygiad ar draws y sector cyhoeddus – hydref 2024<br><br>CNC i'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Buddsoddi cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru | Diwedd hydref 2024 |
| Canfyddiadau o archwiliadau datblygu cynaliadwy (adroddiad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Erbyn dechrau Mai 2025 |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | Cwmpasu ar y gweill, y bwriad o'i gyflawni ddechrau'r haf |
| Heriau i'r sector diwylliannol | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Ailgydbwyso gofal a chymorth | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG (gwaith archwilio lleol mewn byrddau iechyd) | I'w gadarnhau (gwaith lleol ym mhob Bwrdd Iechyd yn dechrau ym mis Mai 2024) |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Canolfan Ganser Felindre | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | I'w gadarnhau (cwmpasu) |
| Cymorth i fusnesau | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cymorth i wasanaethau bysiau a rheilffyrdd | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Cynnydd gyda buddsoddiad mewn adeiladau ysgol a choleg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |
| Dulliau cyrff y GIG o drawsnewid digidol (gwaith archwilio lleol) | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2024-25) |

## Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| **Pwyllgorau Archwilio: 'Sut beth yw da?'**<br>Gwaith ymchwil a datblygu i ddeall y dirwedd pwyllgorau archwilio eang ar draws pob sector yng Nghymru. Allbynnau i gefnogi digwyddiadau Cyfnewid Arferion Da a gwaith archwilio posibl yn y dyfodol. | Gwaith Ymchwil a Datblygu Medi – Rhagfyr 2023<br>Digwyddiad Arferion Da Gwanwyn 2024 |

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
| --- | --- |
| **Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol** Mae trefniadau llywodraethu da yn rhan hanfodol o’r ffordd y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu’n effeithiol ac yn darparu gwasanaethau gwerth am arian i ddinasyddion a chymunedau yng Nghymru. Pwyllgorau Archwilio yw un o’r sylfeini sy’n cefnogi trefniadau llywodraethu da. Gyda phwysau sylweddol ar gyllid y sector cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol, mae angen cynyddol am arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol. Mae Pwyllgorau Archwilio yn chwarae rhan hanfodol yn hyn. Mae’r digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i rannu profiadau, dysgu, a rhwydweithio gyda chymheiriaid ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. | Cofrestru ar gyfer y digwyddiad hwn – Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol – Stadiwm Dinas Caerdydd, Dydd Mercher 22 Mai 2024 10 AM - 3:30 PM (tickettailor.com) |
| Y Gyfnewidfa Arfer Da – Ein crynodeb o’r flwyddyn o ddigwyddiadau ac adnoddau | Rhagfyr 2023 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 27 Mehefin 2024 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2023-24 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Blaenraglen Waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2024-25 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl. .

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2024-25

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2) | Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1) | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)<br><br>Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5) |
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2023-24 (3.4.8.3.1/2)<br><br>Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adolygiad o Effeithlonrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 a Log Gweithredodd (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 a Log Gweithredodd (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 a Log Gweithredodd (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 a Log Gweithredodd (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 a Log Gweithredodd (3.4.8.3.2) |

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023-24 (3.4.8.4.4) (yn amodol) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2023-24 (3.4.8.5.1/2/3/4) | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2025-26) (3.4.8.5.1/3/4) | |
| Gwerth am arian (3.4.8.6) | *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.6/7/8/9/12 /14/15) (3.4.8.6.3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* | | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2023-24 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3)* | *Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | |

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *(3.4.8.6.3)* | | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2023-24 (3.4.8.7.1/2/3) | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.8.3) (dros dro) | Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a | *Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2023-24 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)* | | Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a | |

Tudalen 146

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Llygredd 2023-24 (3.4.8.9.4/5/6)<br><br>Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2022-24 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6) | | | Llygredd 2025-28 (3.4.8.9.2/3) | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023-24 (3.4.8.10.5/6/7/8/11/14/15) (3.4.8.6.3)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.1/8/11/13) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/5)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2023) (3.4.8.11.2/3) | Cynllun Archwilio Blynyddol Manwl 2024 (3.4.8.11.1/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2024) (3.4.8.11.2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch2 2024) (3.4.8.11.2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2024) (3.4.8.11.2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2024) (3.4.8.11.2/3) |

Tudalen 148

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Archwilio Blynyddol Amlinellol 2024 (3.4.8.11.1/3) | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4) | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3) | |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2023-24 (3.4.8.12.1/2/3/5) (3.4.8.6.1/2/3) | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1) | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2023-24 (3.4.8.14.1/2)<br><br>Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24 (3.4.8.14.1) | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft | | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 27 Mehefin 2024 | 18 Gorffennaf 2024 | 19 Medi 2024 | 05 Rhagfyr 2024 | 11 Chwefror 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2023-24 (3.4.8.15.1/2/3) | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[1] | | | | | | |
| 3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol[2] | | | | | | |

Tudalen 149

[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[2] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant (3.4.8.2.10)

## Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

| Maes | Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Mehefin 2023 Awst 2023 | | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2) | Medi 2023 | | | | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Hydref 2023 | | | | |
| Atal Twyll a Llygredd | Rhagfyr 2023 | | | | |
| Rheoli Risg | Mawrth 2024 | | | | |



## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr[3] | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |

[3] Mae trwydded y modiwl hwn yn dod i ben, ac felly dylid ei chwblhau erbyn 31/03/24. Mae'r Cyngor yn y cyfnod cynnar o ymestyn y drwydded drwy arian grant.